



ADFER, AILOSOD, ADNEWYDDU



Adroddiad Blynyddol Cynllun
Corfforaethol 2022-2023



Cyngor Castell-nedd Port Talbot
Neath Port Talbot Council



Cynnwys

Cyflwyniad

	Page
Rhagair	3
Cyflwyniad	4
Rheoli Perfformiad	5
Llywodraethiant y Cyngor	6
Gweithio mewn Partneriaeth	10
Amcan Llesiant 1 – Y dechrau gorau mewn bywyd	12
Amcan Llesiant 2 – Bod pob cymuned yn llewyrchus ac yn gynaliadwy	25
Amcan Llesiant 3 – Bod modd i genedlaethau'r dyfodol fwynhau ein hamgylchedd lleol, ein diwylliant a'n treftadaeth	34
Amcan Llesiant 4 – Swyddi a sgiliau	43
Cyllid a Gwariant	53
Cydraddoldeb ac Amrywiaeth	54
Yr Iaith Gymraeg	55
Lleisio barn ar y pethau sy'n bwysig i chi	56

Rhagair

Bu 2022-2023 yn flwyddyn arall o uchafbwyntiau a siomedigaethau, a theimlwyd hynny nid yn unig ar draws ein cymunedau yma yng Nghastell-nedd Port Talbot, ond ar draws y byd. Gwelwyd chwyddiant a chostau ynni yn codi i lefelau digynsail, gan orfodi llawer o'n trigolion, ein busnesau a'n sefydliadau cefnogi i argyfwng costau byw.

Mae'r cyngor hwn unwaith yn rhagor, fel y gwelwyd yn ystod pandemig Covid, wedi gweithio i weinyddu/ddarparu gwerth mwy na £9 miliwn o gymorth ariannol i drigolion trwy ei Gynllun Lliniaru Caledi, ei gynllun cymorth gyda chostau byw, a gweinyddu'r cynllun cymorth tanwydd. Rydym hefyd wedi gallu cyfeirio pobl ymlaen at hybiau cymunedol, banciau bwyd a gwasanaethau cefnogi.

Gwelsom hefyd ddiodefaint y rhai oedd yn ffoi o Wcráin wedi i Rwsia ymosod, a buom yn gweithio, fel llawer o awdurdodau lleol eraill y Deyrnas Unedig, i ymateb yn ddyngarol, gan roi cartref i nifer o deuluoedd bregus yma yn y fwrdeistref sirol trwy gynnal Canolfan Groesawu ar ran Llywodraeth Cymru, a threfniadau gyda gwestai a theuluoedd penodol.

Er bod cael hyd i ffordd trwy fwy fyth o ansicrwydd wedi bod yn anodd, mae gan Gastell-nedd Port Talbot nifer sylweddol o brosiectau adfywio a buddsoddi'n dod i'r ardal, a fydd ymhen amser, gobeithio, yn darparu cyfoeth o swyddi a chyfleoedd cadwyn gyflenwi i bobl a busnesau lleol.

O gymeradwyo cynllunio ar gyfer datblygiad Wildfox yng Nghwm Afan a chyhoeddi ein cynnig llwyddiannus am y Porthladd Rhydd Celtaidd, i'r camau cyson at groesawu'r Ganolfan Fyd-eang Rhagoriaeth Rheilffyrdd i Gwm Nedd, mae'n amlwg bod Castell-nedd Port Talbot yn dal i ffynnu ac y gallwn ni gyflawni pethau rhyfeddol gyda'n gilydd.

**Y Cyngorydd Steve Hunt,
Arweinydd y Cyngor**





Cyflwyniad

Mae Adroddiad Blynyddol 2022-2023 yn darparu trosolwg cytbwys o'r cynnydd a wnaed yn erbyn y pedwar amcan llesiant a nodwyd yng [Nghynllun Corfforaethol 2022-2027 – Adfer, Ailosod, Adnewyddu](#). Mae'r Adroddiad Blynyddol hwn yn rhan o'n dyletswydd statudol i adrodd o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.



Cafodd yr amcanion llesiant canlynol eu cyflwyno a'u cymeradwyo gan y Cyngor yn 2022.

- ↳ Bod pob plentyn yn cael y dechrau gorau mewn bywyd.
- ↳ Bod pob cymuned yn llewyrchus ac yn gynaliadwy.
- ↳ Bod modd i genedlaethau'r dyfodol fwynhau ein hamgylchedd lleol, ein diwylliant a'n treftadaeth.
- ↳ Bod pobl leol yn fedrus ac yn cael mynediad at swyddi gwyrdd o safon.

O dan bob amcan llesiant, cyflwynwyd nifer o ddeilliannau gwelliant a blaenoriaethau. Roedd y deilliannau gwelliant yn cyflwyno'r sefyllfa gyffredinol rydym ni'n anelu at ei chyflawni erbyn 2027, ac roedd y blaenoriaethau'n nodi'r camau gweithredu strategol y byddwn ni'n eu cymryd i gyflawni'r gwelliant hwnnw yn ystod y cyfnod o 12 mis. Wrth adolygu ein cynnydd yn ystod 2022-2023 buom ni'n myfyrio ar ein hamcanion llesiant a'u perthnasedd ar hyn o bryd. Wrth baratoi'r Adroddiad Blynyddol hwn ar gyfer blwyddyn ariannol 2022-2023, mae gofyn bod y cyngor yn ystyried a yw'r amcanion llesiant cyfredol yn dal yn berthnasol, neu a ddylid ystyried newidiadau i'r amcanion hynny. Bydd yr amcanion llesiant yn parhau yr un fath yn ystod y flwyddyn sy'n dod (2023-2024) ond ein nod fydd adolygu deilliannau a blaenoriaethau ein Cynllun Corfforaethol ar gyfer y cyfnod 2024 - 2027 wedi'r ymgyrch Parhewch i Sgwrsio.

Yn ein Cynllun Corfforaethol 2022-2023: Adfer, Ailosod, Adnewyddu, cyflwynwyd ein cynlluniau ar gyfer symud ymlaen o'r cyfnod cythryblus a ddatblygodd o ganlyniad i bandemig byd-eang Covid-19. Bu llawer o'n gwasanaethau o dan bwysau, ac mae hynny'n parhau, ac er ein bod yn dal yn uchelgeisiol o ran ein cynlluniau ar gyfer y dyfodol, mae angen i ni fod yn realistig ynghylch cyflawni ein hamcanion llesiant ac argaeledd cyllid ac adnoddau i gynnal y cynlluniau hynny. Yn yr adolygiad hwnnw, byddwn hefyd yn cymryd i ystyriaeth Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) sydd bellach wedi derbyn cydsyniad Brenhinol. Fel rhan o'r pedair egwyddor fydd yn cael eu gweithredu byddwn yn edrych eto ar ein hamcanion llesiant i sicrhau bod 'gwaith teilwng' yn cael ei gyfnewid am 'waith teg', yn unol â'r Ddeddf. Mae ein hamcanion llesiant cyfredol yn ein galluogi i ddangos ein bod yn cyfrannu at y saith nod llesiant cenedlaethol, yn cymryd i ystyriaeth ein gwaith adferol parhaus wedi'r pandemig, ac yn ein galluogi i symud ymlaen gyda'r blaenoriaethau canlynol yn y tymor byr, canolig a hir. Dangosir hyn yn y tabl ar dudalen 9. Mae pob un o'n pedwar amcan llesiant yn eang eu natur ac mae pob un o'r pedwar yn cyfrannu at bob un o'r saith nod llesiant cenedlaethol.


Rheoli Perfformiad

Yn ystod 2022-2023 diweddarwyd ein Fframwaith Rheoli Perfformiad Corfforaethol (FfRhPC) i roi cyfeiriad clir i'r cyngor, gan gyfuno ei holl waith o lefel y cyflogai i lefel y cyngor llawn, fel bod pawb yn glir ynghylch eu cyfraniad at gyflawni gweledigaeth, pwrpas a blaenoriaethau'r cyngor.

Mae'n hanfodol bod ein prosesau cynllunio (gan gynnwys rhai ariannol a chynllunio ar gyfer y gweithlu), perfformiad a risg yn gadarn ac yn rhan annatod o'n penderfyniadau ar bob lefel yn y sefydliad. Mae gwybodaeth ddibynadwy, amserol a chywir yn bwysig i ni ac i'r rhai sy'n ein galw i gyfrif wybod sut rydym ni'n perfformio ac yn cyflawni ein blaenoriaethau.

Mae ein FfRhPC diwygiedig yn:

- Cefnogi cyflawni gweledigaeth, pwrpas a blaenoriaethau'r Cynllun Corfforaethol;
- Helpu i wella gwasanaethau a deilliannau i bobl;
- Helpu i wreiddio hunanasesu ar draws y sefydliad;
- Helpu i sicrhau bod y cyngor yn defnyddio'i adnoddau yn ddiwastraff, yn effeithiol ac yn effeithlon i ddarparu gwerth am arian;
- Cryfhau ymhellach ddiwylliant cynllunio, perfformiad a risg ar draws y sefydliad;
- Helpu i lywio penderfyniadau a gwella cynllunio;
- Gwella'r craffu ar berfformiad;
- Gwella integreiddio gweithgareddau cynllunio allweddol;
- Helpu i ganfod perfformiad gwael; ac yn
- Cysylltu holl waith y cyngor o lefel y cyflogai/yr unigolyn hyd at y cyngor llawn, fel bod pawb yn glir ynghylch eu cyfraniad at gyflawni gweledigaeth, pwrpas a blaenoriaethau'r cyngor.



Llywodraethiant y Cyngor

Mae gan y cyngor nifer o brosesau i sicrhau bod ein llywodraethiant yn gadarn.

Hunanasesu

Er mwyn sicrhau bod y cyngor yn cyflawni ei ddyletswydd statudol o dan y Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (2021), cynhyrchwyd hunanasesiad blynyddol i ddangos ein trefniadau llywodraethu a'n cynnydd. Mae ein hunanasesiad yn cyflwyno'n perthynas gref gyda'n rhanddeiliaid trwy ymgysylltiad, cyfranogiad, craffu ac adborth.

Mae'r berthynas bwysig hon yn rhan annatod o sut rydym ni'n gweithredu'n barhaus – fel bod modd cyflwyno gwasanaethau o safon a chefnogi gwelliant. Mae hefyd yn bwysig bod y rhai sy'n ein galw i gyfrif yn gwybod am ein perfformiad ac a ydym ni'n cyflawni ein hamcanion. Ymhlith ein rhanddeiliaid mae defnyddwyr gwasanaeth, y cyhoedd, busnesau lleol, cyflogeion, aelodau etholedig, sefydliadau cymunedol, partneriaid ac undebau llafur

Mae'r hunanasesiad yn cwmpasu'r themâu strategol allweddol canlynol:


1. Cynllunio Corfforaethol (Rôl y Cyngor)
2. Cynllunio'r Gweithlu (Cael y Gorau gan y Gweithlu)
3. Arweinyddiaeth (Arweinyddiaeth a Rheolaeth)
4. Caffael (Caffael a Chomisiynu)
5. Rheoli Risgiau (Rheoli Risgiau'n Effeithiol)
6. Digidol, Data a Thechnoleg (Data a dadansoddeg/Asedau a Thechnoleg)
7. Cynllunio Ariannol (Rheoli Gwariant/Rheoli Incwm)
8. Asedau Ffisegol a Chyfleusterau

Mae'r hunanasesiad corfforaethol yn gofyn i ni bennu:

- ↳ I ba raddau rydym ni'n llwyddo?
- ↳ Sut rydym ni'n gwybod?
- ↳ Beth byddwn ni'n gwneud i wella?

Mae hunanasesiad 2022-2023 yn cynnwys diweddariad ar nifer o feysydd gwelliant a nodwyd yn 2021-2022 ac yn cyflwyno meysydd gwelliant ar gyfer 2023-2024. Mae'r hunanasesiad hefyd yn cynnwys nifer o fesurau perfformiad sy'n rhoi trosolwg o gynnydd detholiad o wasanaethau.

Gweld
Hunanasesiad y
cyngor 2022
2023



Llywodraethiant y Cyngor

Datganiad Llywodraethiant Blynyddol

Mae ein trefniadau llywodraethu hefyd wedi'u nodi yn ein Fframwaith Rheoli Perfformiad Corfforaethol a'n Datganiad Llywodraethiant Blynyddol.

Mae'r cyngor wedi mabwysiadu Fframwaith 2016: Cyflawni Llywodraethiant Da ym maes Llywodraeth Leol, a ddatblygwyd gan Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus ac Atebolrwydd (CIPFA) er mwyn datblygu ein Datganiad Llywodraethiant Blynyddol. Mae fframwaith 2016 yn egluro'r prosesau a'r gweithdrefnau sydd ar waith i alluogi'r cyngor i gyflawni ei swyddogaethau'n effeithiol, ac yn amlygu'r systemau, y prosesau, y diwylliannau a'r gwerthoedd sy'n rhoi cyfeiriad a rheolaeth i'r cyngor.

Mae datganiad Llywodraethiant Blynyddol 2022-2023 yn nodi 13 maes gwelliant ar gyfer 2023-2024.

Mae'r holl drefniadau isod yn bwydo'n ôl i'n cylch perfformiad ac yn llywio'n prosesau hunanasesu, cynllunio a gwneud penderfyniadau.

Lefel Strategol

- ↳ Cynnydd Cynllun Corfforaethol 2022-2027
- ↳ Adroddiad Blynyddol y Cynllun Corfforaethol
- ↳ Bwrdd y Rhaglen Datblygu Trefniadaeth
- ↳ Adroddiad Hunanasesu Blynyddol y Cyngor
- ↳ Cynnydd ein cynlluniau a'n strategaethau trosfwaol
- ↳ Amcanion y Prif Swyddog
- ↳ Monitro'r gyllideb
- ↳ Rheoli Risg
- ↳ Datganiad Llywodraethiant Blynyddol
- ↳ Data canmoliaeth a chwynion y Cyngor
- ↳ Dangosyddion Perfformiad Allweddol

Lefel Gwasanaeth

- ↳ Cynlluniau Adfer Gwasanaeth (SRPs)
- ↳ Meincnodi
- ↳ Adroddiadau gwasanaeth ad-hoc

Lefel Unigol

- ↳ Arfarniadau perfformiad blynyddol

Gweld Hunanasesiad y
cyngor 2022-2023

Grŵp Llywodraethiant Corfforaethol Mewnol

Mae Grŵp Llywodraethiant Corfforaethol y cyngor yn cwrdd bob chwarter i sicrhau bod trefniadau llywodraethiant y Cyngor yn gadarn ac yn addas at y diben, ac yn adrodd yn ôl i Grŵp y Cyfarwyddwyr Corfforaethol.

Sut mae ein Hamcanion Llesiant yn cyfrannu at y Nodau Llesiant Cenedlaethol



Amcanion Llesiant Cyngor Castell-nedd Port Talbot / 2022-2023

ALI 1 – Y dechrau gorau mewn bywyd

ALI 2 – Bod pob cymuned yn llewyrchus ac yn gynaliadwy

ALI 3 – Bod modd i genedlaethau'r dyfodol fwynhau ein hamgylchedd lleol, ein diwylliant a'n treftadaeth

ALI 4 – Swyddi a sgiliau

Y 7 Nod Llesiant Cenedlaethol

	ALI 1	ALI 2	ALI 3	ALI 4
Cymru Lewyrchus	✓	✓	✓	✓
Cymru Gydnherth	✓	✓	✓	✓
Cymru sy'n fwy Cyfartal	✓	✓	✓	✓
Cymru iachach	✓	✓	✓	✓
Cymru o gymunedau	✓	✓	✓	✓
Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu	✓	✓	✓	✓
Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang	✓	✓	✓	✓

Sut gwreiddiwyd Egwyddor Cynaliadwyedd yn ein Hamcanion Llesiant

Amcanion Llesiant Cyngor Castell-nedd Port Talbot / 2022-2023

ALI 1- Y dechrau gorau mewn bywyd

ALI 2 - Bod pob cymuned yn llewyrchus ac yn gynaliadwy

ALI 3 - Bod modd i genedlaethau'r dyfodol fwynhau ein hamgylchedd lleol, ein diwylliant a'n treftadaeth

ALI 4 - Swyddi a sgiliau

Cydweithio



Gweithredu ar y cyd ag unrhyw berson arall (neu rannau eraill o'r corff ei hun) a allai helpu'r corff i gyflawni ei amcanion llesiant.

Integreiddio



Ystyried sut gallai amcanion llesiant y corff cyhoeddus effeithio ar bob un o'r nodau llesiant, ar eu hamcanion eraill, neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill.

Ymwneud



Pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni'r nodau llesiant, a sicrhau bod y bobl hynny yn adlewyrchu amrywiaeth yr ardal y mae'r corff yn ei gwasanaethu.

Hirdymor



Pwysigrwydd cydbwysu anghenion tymor byr â'r angen am ddiogelu'r anghenion tymor hir.

Atal



Sut gallai gweithredu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu helpu cyrff cyhoeddus i gyflawni eu hamcanion.

Pwrpas cyffredinol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yw sicrhau bod trefniadau llywodraethiant cyrff cyhoeddus ar gyfer gwella llesiant Cymru yn cymryd anghenion cenedlaethau'r dyfodol i ystyriaeth. Lluniwyd y Ddeddf i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn unol ag egwyddorion datblygu cynaliadwy. Mae'r gwaith rydym ni'n ei wneud i gyflawni ein gweledigaeth gorfforaethol yn cymryd i ystyriaeth pum ffordd o weithio Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, ac mae wedi'i wreiddio ar draws y cyngor er mwyn cyfrannu at y weledigaeth honno.

Lefel strategol– Byddwn ni'n cychwyn rhaglen o newid strategol i sicrhau ein bod yn cofleidio dull strategol 'un cyngor' o gyflawni'r weledigaeth.

Lefel gorfforaethol –Caiff strategaethau corfforaethol eu haddasu i gefnogi cyflawni'r weledigaeth a chyflwyno'r rhaglen o newid strategol.

Lefel weithredol – Bydd pob gwasanaeth a swyddogaeth o fewn y cyngor yn alinio'u cynlluniau adfer gwasanaeth er mwyn mwyafu eu cyfraniad i gyflawni'r weledigaeth a bennwyd gennym.

Lefel unigol – Mae pob cyflogai'n teimlo cymhelliad a gwerthfawrogiad, ac yn deall eu rhan yn ein dulliau strategol a gweithrediadol. Hyfforddiant a datblygiad i bob gweithiwr, yn cefnogi cyflawni'r cynllun corfforaethol, gyda ffocws ar y prif flaenoriaethau a gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau hyfforddi sydd ar gael.

Gweithio mewn Partneriaeth

Bwrdd Gwasanaethau

Cyhoeddus (BGC) Castell-nedd

Port Talbot

Yn ystod haf 2022, cyhoeddodd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Castell-nedd Port Talbot ei ail asesiad lleol o lesiant, a lywiwyd gan ganfyddiadau arolwg y Cyngor: 'Dewch i Sgwrsio', a gynhaliwyd yn ystod 2021.

Darparodd canfyddiadau 'Dewch i Sgwrsio', ynghyd â data a gwybodaeth lleol a chenedlaethol, ddarlun clir o lesiant yn ein hardal, gan amlygu ein hasedau a'n heriau.

Aeth BGC CNPT ac Abertawe ati ar y cyd i gomisiynu Prifysgol Abertawe i ddarparu dadansoddiad crynodol o'r wybodaeth a gasglwyd. Cynhwyswyd elfennau o hynny yn y ddogfen grynodol sy'n nodi themâu allweddol yr asesiad. Ceir manylion llawn yma nptwellbeing.wales – [Well-Being-Assessment](https://nptwellbeing.wales)

Yn sgîl y dull cydlynus o ddatblygu'r Asesiad Llesiant, aliniodd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus eu hamcanion llesiant â rhai'r cyngor, er mwyn gwneud cynnydd mewn modd effeithlon a darparu gwerth ychwanegol trosfwaol fel Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

Cytunwyd ar gyfres o gamau a fydd yn helpu'r Bwrdd i gyflawni'r amcanion llesiant. Bydd y camau hyn yn cael eu gyrru gan strwythur llywodraethu o bartneriaethau sydd eisoes yn bodoli lle bo modd, a fydd yn cydweithio mewn modd integredig, gan adeiladu ar waith a pherthnasoedd presennol i gyflawni'r gwaith ar ran y BGC. Yn dilyn y cyfnod ymgynghori o 12 wythnos, rhwng Rhagfyr 2022 a Mawrth 2023, cyhoeddwyd y Cynllun Llesiant gorffenedig ar 4 Mai 2023, ac mae i'w weld yma [Well Being Strategy | NPTCBC \(nptpsb.org.uk\)](https://nptpsb.org.uk)



Cyd-bwyllgorau Corfforedig



Mae Cydbwyllgor Corfforaethol De-orllewin Cymru, a gyfansoddwyd yn ffurfiol ym mis Ionawr 2022, yn cwmpasu ardaloedd awdurdod lleol Sir Gaerfyrddin, Castell-nedd Port Talbot, Sir Benfro ac Abertawe.

Bydd y Pwyllgor yn gwella cynllunio rhanbarthol, cydlynu a chyflwyno trafndiaeth, cynllunio defnydd tir, datblygu economaidd ac ynni ar draws De-orllewin Cymru. Mae cynrychiolwyr ar y Pwyllgor o Gyngor Sir Gâr, Cyngor CNPT, Cyngor Sir Benfro a Chyngor Abertawe, yn ogystal ag Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro.

Creodd Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 y gofyniad am Gydbwyllgor Corfforaethol.

Mae disgwyl i'r Fargen Ddinesig roi hwb parhaol o £1.8 biliwn i Werth Ychwanegol Gros (GVA) Dinas-Ranbarth Bae Abertawe, a bydd yn cynhyrchu bron 10,000 o swyddi newydd yn ystod y 15 mlynedd nesaf. Rhennir y buddsoddiad ar draws portffolio o naw prif brosiect a rhaglen, sy'n cyflwyno cyfanswm o 35 prosiect unigol ar draws siroedd Abertawe, Caerfyrddin, Castell-nedd Port Talbot a Phenfro.

Mae nifer o brosiectau Bargen Ddinesig yn CNPT, gan gynnwys:

Cartrefi sy'n Bwerdai

Mae prosiect Cartrefi sy'n Bwerdai (HAPS) Bargen Ddinesig Bae Abertawe yn rhaglen ranbarthol 5 mlynedd dan arweiniad CBS Castell-nedd Port Talbot ar ran awdurdodau lleol y Fargen Ddinesig, sy'n ceisio cyflwyno cartrefi clyfar, carbon isel, ynni-effeithlon trwy weithredu'n gydlynus ar draws y rhanbarth, gan arwain yn y pen draw at leihau tloedi tanwydd a'i effaith ar iechyd a llesiant, cyfrannu at dargedau lleihau allyriadau carbon, a lliniaru'r prinder tai er mwyn ymateb i'r angen am dai.

Mae rhaglen HAPS yn targedu prosiectau adeiladu o'r newydd ac ôl-osod mewn adeiladau sydd eisoes yn bodoli. Y nod yw darparu prawf o'r cysyniad yn y sector cyhoeddus ar raddfa gymharol fach, gyda'r bwriad o uwchraddio gweithgaredd ar draws y rhanbarth a'r sectorau. Mae'r prosiect 'braenaru' ar hyn o bryd ar safle Cartref Gofal Hafod gynt yng Nghastell-nedd – prosiect ar y cyd yw hwn rhwng CBS Castell-nedd Neath Talbot, Pobla Phrifysgol Abertawe – SPECIFIC.

Cefnogi Arloesedd a Thwf Carbon Isel

Mae'r rhaglen Cefnogi Arloesedd a Thwf Carbon Isel yn cynnwys saith prosiect rhyng-gysylltiedig o dan bedair thema:

- Adeilad arobryn, cadarnhaol o ran ynni y Ganolfan Dechnoleg ar Barc Ynni Baglan, sy'n darparu swyddfeydd hyblyg i gwmnïau newydd a busnesau cynhenid, gyda ffocws ar y sectorau arloesedd, TGCh ac Ymchwil a Datblygu. Bydd yr ynni dros ben o dechnolegau solar a rhai eraill adnewyddadwy yn cael ei drosi'n hydrogen yn y Ganolfan Hydrogen gerllaw, er mwyn ei ddefnyddio'n danwydd i gerbydau hydrogen.
- Cyfleuster arbenigol a fydd yn cefnogi'r diwydiant dur a metelau ym Mhort Talbot, Cymru a'r Deyrnas Unedig, ochr yn ochr â lleihau ei ôl troed carbon.
- Prosiectau datgarboneiddio, gan gynnwys rhwydwaith gwefru cerbydau allyriadau isel, yn ogystal â monitro ansawdd aer a phrosiect ysgogi ar gyfer hydrogen.
- Prosiect Dyfodol Diwydiannol i roi sylw i'r bwlch rhwng y cyflenwad a'r galw o ran busnesau a'r tir sydd ar gael ym Mharth Menter Glannau Port Talbot, gydag adeilad hybrid yn darparu unedau cynhyrchu yn ogystal â lle ar gyfer swyddfeydd i gefnogi busnesau newydd a chynhenid yn y sectorau arloesedd a gweithgynhyrchu.



Amcan Llesiant 1 – Y Dechrau Gorau mewn Bywyd

O'r 21 cam gweithredu allweddol a nodwyd gennym yn y Cynllun Corfforaethol i'w cyflawni yn ystod 2022-2023, roeddem yn 'cyrraedd y nod' yn achos 17 o gamau ac roedd 4 'yn agos ati'




Cyhoeddwyd ein Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg

2,426

o leoedd gofal plant ar gael



Cafodd 34% o blant 0-4 oed cymorth Dechrau'n Deg



Launched the Children and Young People's Engagement and Participation Strategy

1189

Wedi elwa o'f ariannu ar gyfer



657



O blant a phobl ifanc yn rhan o weithgareddau chwarae a ariannir yn llawn o ganlyniad i Gronfa Gwyliau Gwaith Chwarae Llywodraeth Cymru.

Estyn prydau ysgol am ddim i Flynyddoedd 1 a 2 (5-7 oed). O fis Medi 2023 byddwn ni'n darparu prydau ysgol am ddim i bob disgybl ysgol gynradd – flwyddyn yn gynt na'n targed.

1275

o sesiynau Gofalwyr Ifanc wedi'u cyflwyno

Mae 19.7% o ddisgyblion Bl.1 yn cael addysg trwy gyfrwng y Gymraeg ac mae mwy o ddisgyblion Bl.11 yn astudio Cymraeg iaith gyntaf (13.1%)




2.2% o ymadawyr Bl. 11 oedd heb fod mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant (NEET). Yr ail ffigur isaf erioed i ni.

Gostyngiad parhaus yn nifer y plant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant.



CODODD nifer y bobl ifanc 16-24 oed mewn cyflogaeth ar draws CNPT o 50.6% i 65.8%



Mae 658 o ddisgyblion ar draws ysgolion cynradd ac uwchradd wedi cyrchu Cymorth Cwmsela yn yr Ysgol.

Cododd nifer y prentisiaethau i bobl ifanc 16-24 oed weithio yn y cyngor **o 19 i 28**



Mae 46% o blant yn cymryd rhan mewn chwaraeon dair gwaith neu fwy yr wythnos. Y gyfradd uchaf yng Nghymru

Amcan Llesiant 1

Y Dechrau Gorau mewn Bywyd



Mae cefnogi ein plant a'n pobl ifanc yn hanfodol i sicrhau ein bod yn dileu anghydraddoldeb yn darparu'r dechrau gorau mewn bywyd. Yn ein Cynllun Corfforaethol 2022-2027 fe wnaethom ni ofyn:

Pam mae hyn yn bwysig?

Mae Covid-19 wedi cael effaith niweidiol sylweddol ar blant a phobl ifanc, gan amharu ar eu dysgu, ac wedi creu canlyniadau o ran eu datblygiad cymdeithasol a'u llesiant corfforol a meddyliol; mae 35% o'r plant 7-24 yn byw yn yr 20% o wardiau mwyaf difreintiedig yng Nghymru; roedd 84% o blant yn mynd i'r meithrin heb y sgiliau priodol o ran iaith, llythrennedd a chyfathrebu i gael mynediad i'r cwricwlwm; mae gan 27% o ddisgyblion oed ysgol hawl i dderbyn prydau ysgol am ddim; nod Dechrau'n Deg yw cynnig cefnogaeth i o leiaf 25% o'r holl blant 0-4 oed yn wardiau mwyaf difreintiedig pob awdurdod lleol. Nid yw'r cynnig hwn ar gael i bawb, ond mae atgyfeiriadau ar sail anghenion, cysylltiadau cryf â'n partneriaid amlasiantaeth, a thargedu anghenion lleol oddi mewn i Raglen Estyn Allan Dechrau'n Deg yn gadael i gymhwysedd y rhaglen estyn yn llawer pellach at y rhai sydd ei angen fwyaf; mae canran sylweddol o ddisgyblion yn gorffen addysg statudol heb y lefelau disgwylidig mewn iaith, mathemateg a gwyddoniaeth; Nid yw dros hanner y disgyblion sydd â hawl i dderbyn prydau ysgol am ddim yn llwyddo i gael gradd C neu'n uwch mewn iaith na mathemateg; Mae gormod o blant a phobl ifanc yn cael eu gwahardd o'r ysgol am gyfnod penodol neu'n barhaol; mae gan o leiaf chwarter y plant yn ein hysgolion Angen Dysgu Ychwanegol hysbys neu a nodwyd; mae 2,237 o bobl ifanc 16-24 oed yn economaidd segur yng Nghastell-nedd Port Talbot – mae rhai o'r rhain yn ystyried eu hunain yn anaddas i weithio oherwydd anawsterau iechyd meddwl; ac mae Llywodraeth Cymru wedi gosod targed o 1 filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, ac mae angen i ninnau wneud ein rhan i helpu i gyflawni hynny.

Crynodeb o'r Cynnydd yn ystod 2022-2023

At ei gilydd rydym ar y llwybr cywir i gyflawni'r amcan llesiant hwn yn 2022-2023. Rhai o'n prif gyflawniadau yn ystod y flwyddyn yw estyn prydau ysgol am ddim i'r rhai ym mlynnyddoedd 3 a 4 yn gynt na'r amserlen, ehangu Dechrau'n Deg a gweld 129 o blant ychwanegol a'u teuluoedd yn cael mynediad at y rhaglen lawn, ac o leiaf 225 o fuddiolwyr y tu allan i ardaloedd cymwys Dechrau'n Deg yn elwa o waith "Estyn allan" y rhaglen, gan gynnwys gofal plant a ariannir, Bydwreigiaeth arbenigol a rhianta dwys yn y blynyddoedd cynnar. Mae hyn wedi cynyddu cwmpas Dechrau'n Deg i 34% o'n holl blant 0-4 oed. Rydym hefyd wedi cyhoeddi ein Cynllun Strategol ar gyfer y Gymraeg mewn Addysg, sy'n manylu ar ein cynlluniau twf ar gyfer y 10 mlynedd nesaf, ac mae canran y plant 5 oed sy'n cael addysg cyfrwng Cymraeg a chanran y disgyblion blwyddyn 11 sy'n astudio Cymraeg iaith gyntaf yn cynyddu o flwyddyn i flwyddyn.

Rydym ni'n cadw at amserlen Llywodraeth Cymru ar gyfer rhoi Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 ar waith a throsi Datganiadau yn Gynlluniau Datblygu Unigol (CDUiau). Yn ystod blwyddyn academiaidd 2022-2023 troswyd Datganiadau AAA y rhan fwyaf o ddysgwyr yn y carfannau gorfodol yn Gynlluniau Datblygu Unigol.

Amcan Llesiant 1 - Y Dechrau Gorau mewn Bywyd

Rydym ni'n parhau i weithio tuag at gwblhau prosiectau Band B y Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy (Rhaglen Ysgolion ac Addysg i'r 21ain Ganrif yn flaenorol). Yn ystod 2022-2023, bu Cabinet y cyngor hefyd yn ystyried y cyfnod nesaf (Band C) a fydd yn golygu bod modd cyflwyno ceisiadau am arian i Lywodraeth Cymru.

Mae ein gwasanaethau addysg wedi cymryd camau bras i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn gallu dychwelyd i'r ysgol ac i leoliadau chwarae ochr yn ochr â chyflwyno'r Cwricwlwm newydd i Gymru a Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (ALNET), sy'n dal i gael ei gyflwyno'n raddol ar draws y fwrdeistref.

Er bod ysgolion ar draws Castell-nedd Port Talbot wedi cael eu hailagor i'r holl ddisgyblion, mae'r cyfraddau presenoldeb ar draws y grwpiau oed cynradd ac uwchradd yn dal yn drafferthus, ac er bod rhagamcanion cyfraddau presenoldeb blwyddyn academaidd 2022-23 yn dangos cynnydd bychan o gymharu â'r flwyddyn flaenorol, maen nhw'n dal yn is na'r cyfraddau presenoldeb cyn y pandemig, gyda 291 o blant (PLASC – Ionawr 2023) yn dal i gael eu haddysg gartref.

Sefydlodd rhai dysgwyr batrwm o beidio â mynychu'r ysgol yn ystod y pandemig y maen nhw a'u teuluoedd wedi cael trafferth cefnu arno. Roedd llawer o'r heriau hyn yn bodoli cyn y pandemig, ond mae rhai wedi dyfnhau ers hynny, ac o ganlyniad, mae wedi mynd yn anoddach cyrraedd rhai teuluoedd ac ymgysylltu â nhw. Mae rhagor o waith i'w wneud i gynyddu cyfraddau presenoldeb mewn ysgolion a lleihau gwaharddiadau o'r ysgol, sydd wedi codi o 525 ym mlwyddyn academaidd 2021-2022 i 760 ym mlwyddyn academaidd 2022-23.

Yn ystod blwyddyn academaidd 2022-2023 mae'r Gwasanaeth Cwnsela mewn Ysgolion wedi cefnogi 658 o ddisgyblion ar draws 3894 o sesiynau cwnsela. O'r 109 o ddisgyblion oed cynradd a fu'n cyrchu cefnogaeth, roedd 70 o dan oed statudol Blwyddyn 6. Mae CNPT yn gyson mewn safle uchel ymhlith y nifer bychan o awdurdodau ar y brig yng Nghymru o ran cofnodi canlyniadau cadarnhaol o ganlyniad i ymyrraeth therapiwtig. Y prif faterion a gyflwynir ar gyfer cymorth cwnsela yw Gorbryder, Teulu a Dicter. Mewn ymateb i hyn, mae'r gwasanaeth wedi datblygu hyfforddiant i staff ysgolion er mwyn ymateb yn y ffordd orau i anghenion y disgyblion hynny sy'n troi at y gwasanaeth gyda materion cysylltiedig â 'dicter'. Mae'r gwasanaeth hefyd yn darparu grwpiau hunangymorth, a bydd yn codi gwaith cwnsela un i un gyda rhieni.

Mae'r Gwasanaeth Cynhwysiad wedi datblygu fforwm amllddisgyblaeth fel bod modd rhoi arweiniad i ysgolion o wahanol safbwyntiau proffesiynol. Bydd 'tîm y fforwm' fel arfer yn cynnwys rhywun sy'n cwnsela mewn ysgol, ymarferydd gwasanaeth llesiant, seicolegydd addysg ac ymarferydd o'r Gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc (CAMHS). Yn ystod 2022-2023, trafodwyd 140 o achosion. O'r rhain, bu 42% yn grymuso cymorth gan yr ysgol, arweiniodd 23% at fewnbwn gan y Gwasanaeth Cynhwysiad, ac arweiniodd 35% at atgyfeiriadau eraill, gan gynnwys CAMHS, Cyswllt Ysgol CAMHS, SPOC, y Tîm o Gwmpas y Teulu.




Amcan Llesiant 1 - Y Dechrau Gorau mewn Bywyd

Cynnydd o ran Camau Gweithredu a Mesurau ein Cynllun Corfforaethol yn 2022-2023:

O'r 21 cam gweithredu allweddol y buom ni'n manylu arnynt yn y Cynllun Corfforaethol i'w cyflwyno yn ystod 2022-2023, roeddem ni ar y llwybr cywir yn gyffredinol yn achos 17, gyda 4 fymryn oddi ar y llwybr. Cysylltwyd mesurau ein Cynllun Corfforaethol â'r camau gweithredu perthnasol.

- Rydym wedi cefnogi arweinwyr ein hysgolion i sicrhau bod pob ysgol yn ailagor yn llawn wedi'r pandemig, ac mae gennym gynlluniau datblygu sydd wedi gwreiddio i ganolbwyntio ar adferiad. Ar ben hynny, mae gwasanaethau'r cyngor wedi cefnogi ysgolion i helpu disgyblion a theuluoedd i ymadfer.
- Gwnaed cynnydd sylweddol o ran sicrhau cynnig blynyddoedd cynnar tecach trwy ragori ar nod ehangu Dechrau'n Deg, sef ymgysylltu â 127 o blant 0-4 oed ychwanegol, fel bod cyfanswm y plant sy'n cyrchu cefnogaeth blynyddoedd cynnar yn 502. O ganlyniad, mae ein rhaglen Dechrau'n Deg wedi rhagori ar y targed cenedlaethol o gwmpasu 25%, gan godi'r ffigur sy'n cyrchu cymorth dechrau'n deg i 34% o'r plant 0-4 oed. Mae dwy ardal fechan ychwanegol ym Margam a Phort Talbot bellach yn rhan o ôl troed Dechrau'n Deg, ac mae Gwaun-Cae-Gurwen bellach yn gwbl gymwys.



Mesur Cyswllt
â'r Cynllun
Corfforaethol

Cyfanswm nifer y lleoedd gofal plant a ddarparwyd ar draws Castell-nedd Port Talbot yw 2,426, sydd wedi codi o 2,400 y flwyddyn flaenorol.

Yn unol â gofynion Llywodraeth Cymru, comisiynwyd gwasanaeth cwmni meddalwedd i ddatblygu platfform CDUiau ar-lein. Penodwyd 'Swyddog Systemau a Phroses CDUiau' dynodedig i arwain y darn yma o waith a sicrhau bod y gofynion o ran manylebau yn cael eu bodloni. Yn ogystal ag ystyried CDUiau a gynhelir gan y cyngor, rhwng 1 Medi 2021 a 31 Awst 2022 bu'r Panel Cynhwysiad ADY hefyd yn ystyried 197 o Aseidiadau Statudol o dan y Fframwaith AAA blaenorol. Yn ystod y cyfnod hwn, cyflwynwyd 168 o ddatganiadau AAA yn ogystal, ac ni chyflwynwyd apeliadau i Dribiwnlys AAA Cymru. Cynhyrchwyd 100% o'r Datganiadau AAA a/neu'r CDUiau o fewn y terfyn amser statudol, ac eithrio 'eithriadau'. Mae eithriadau'n cyfeirio at yr achosion hynny lle cyflwynir cyngor y gofynnwyd amdano gan weithwyr proffesiynol y tu allan i'r terfynau amser, sydd y tu hwnt i reolaeth yr ALNSS, ynghyd â'r achosion hynny lle mae angen deialog pellach gyda rhieni/gofalwyr ar ôl cyflwyno'r cynllun arfaethedig.

Amcan Llesiant 1 - Y Dechrau Gorau mewn Bywyd

- Mae gan y Gwasanaeth Cynhwysiad ac Ysgolion CNPT fframwaith sicrhau ansawdd cadarn ar gyfer monitro ac adolygu effaith CDUiau. Mae Rheolwyr y Gwasanaeth Cynhwysiad yn gweithio gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe i sicrhau ansawdd y ddarpariaeth lechyd. Mae'r Rheolwr ALNSS yn sicrhau ansawdd yr holl CDUiau a gynhelir gan yr ALL, ac mae Swyddog Gwasanaeth Cynhwysiad wrthi ar hyn o bryd yn gweithio gyda chlystyrau ysgol i ddatblygu fframwaith sicrhau ansawdd ar gyfer CDUiau a gynhelir gan ysgolion.
- Fe wnaethom ni wella'r cyfleoedd chwarae a hamdden di-dâl a chost isel i blant a phobl ifanc, ac roedd y canlyniadau'n cynnwys y canlynol:
 - ↳ Bu 657 o blant a phobl ifanc yn cymryd rhan mewn gweithgareddau chwarae a ariannwyd yn llawn o ganlyniad i Gronfa Gwyliau Gwaith Chwarae Llywodraeth Cymru. Defnyddiwyd y gronfa i wella ansawdd y ddarpariaeth chwarae, gyda ffocws ar gau bylchau a nodwyd yn y ddarpariaeth. Mae'r gweithgareddau wedi cynnwys sesiynau chwarae mynediad agored, cyfleoedd chwarae i deuluoedd, gwerysilloedd chwaraeon a chynlluniau chwarae yn ystod yr haf i blant a phobl ifanc sydd ag anghenion cefnogi ychwanegol.
 - ↳ Mae'r Gwasanaeth Gweithgarwch Corfforol a Chwaraeon mewn lleoliad ysgol ar gyfer y cynradd a'r uwchradd er mwyn darparu cyfleoedd ar ffurf chwaraeon a gweithgareddau corfforol.
 - ↳ Bu'r Tîm Gweithgarwch Corfforol a Chwaraeon, mewn partneriaeth â'r Tîm Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant Dechrau'n Deg, yn darparu gweithdai Llythrennedd Corfforol a chwarae egniol i blant a'u teuluoedd mewn lleoliadau gofal plant ar draws Castell-nedd Port Talbot.
 - ↳ Mae canlyniadau'r Arolwg Chwaraeon Ysgol, arolwg cenedlaethol o ddisgyblion bl. 3-11, sy'n edrych ar agweddau, ymddygiad a chyfleoedd pobl ifanc yng nghyswllt chwaraeon, yn dangos mai CNPT sgoriodd uchaf yng Nghymru yn y tri maes allweddol canlynol:
 - Nifer y plant sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon dair gwaith neu fwy yr wythnos (46%);
 - Y rhai sy'n rhan o glybiau chwaraeon cymunedol y tu allan i'r ysgol (71.6%);
 - Y rhai sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon cymunedol o leiaf unwaith yr wythnos (62.3%).
- Mae gwasanaethau ar draws Cynhwysiad a'r Bartneriaeth Meddwl am y Teulu yn sicrhau bod cynnig eglur ar gael i rieni a gweithwyr proffesiynol. Mae'r Gwasanaeth Cynhwysiad hefyd wedi sicrhau capasiti ar draws y Blynyddoedd Cynnar i fodloni gofynion y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (ALNET). Rhannwyd cynnig cefnogaeth y Gwasanaeth Cynhwysiad yn effeithiol gydag ysgolion a theuluoedd trwy ein gwefan a'n cyfryngau cymdeithasol, yn ogystal â thrwy weithdai wyneb yn wyneb.
- Mae'r holl ysgolion cynradd wedi dechrau gweithio o dan y Cwricwlwm i Gymru. Mae'r holl ysgolion uwchradd yn paratoi ar gyfer dechrau hynny i flynyddoedd 7 ac 8 ym mis Medi 2023. Mae lefelau ymgysylltiad yng ngweithdai a hyfforddiant y cwricwlwm yn uchel iawn. Mae'r ffocws o'r newydd ar ddatblygu dealltwriaeth a rennir o gynnydd yn flaenoriaeth ar lefel leol a chenedlaethol. Mae'r broses hon yn cael ei chefnogi ar lefel leol, o fewn y clwstwr, ac yn genedlaethol.

Amcan Llesiant 1 - Y Dechrau Gorau mewn Bywyd

- Mae staff y Gwasanaeth Cynhwysiad yn rheolaidd yn mynychu'r 'Fforwm Cefnogi Anghenion Ychwanegol i Rieni/Gofalwyr' yn y gymuned, sy'n cael ei chynnal bob hanner tymor i wella cyfathrebu ac ymgynghori. Mae'r sesiynau hyn bob amser yn gynhyrchiol, a gwahoddir y rhai sy'n bresennol i gyfrannu barn onest ynghylch beth mae'r gwasanaeth yn ei wneud yn dda, a beth allai gael ei wneud yn well. Mae teuluoedd hefyd yn cael gwybod am nifer o ffyrdd o gysylltu â'r gwasanaeth os bydd angen, gan gynnwys cyfeiriad e-bost canolog a thrwy wefan y Gwasanaeth Cynhwysiad. Caiff teuluoedd eu cyfeirio hefyd at SNAP Cymru, elusen genedlaethol sy'n cynnig cefnogaeth, arweiniad ac eiriolaeth i blant a phobl ifanc sydd ag anghenion dysgu ychwanegol a'u teuluoedd.
- Mae pryddau ysgol am ddim bellach ar gael i bob disgybl o'r Derbyn i Flwyddyn 4, a byddan nhw'n cael eu hestyn i'r holl ddisgyblion ysgol gynradd o fis Medi 2023.
- Buon ni'n gweithio i sicrhau bod y plant hynny oedd angen eu hamddiffyn yn cael eu diogelu, a'u bod yn gallu tyfu i fyny mewn teulu cariadus, sefydlog, roedd peth o'r gwaith yma'n cynnwys:
 - ↳ Gweithio ar y cyd â theuluoedd i feithrin gwydnwch ac atal problemau rhag gwaethygu trwy ddarparu cynigion cymorth a chefnogaeth yn gynnar. Bu gostyngiad parhaus yn nifer y plant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant, a sefydlogodd y nifer ar 43 ddiwedd Mawrth 2023.
 - ↳ Cefnogi teuluoedd yn gynharach trwy gryfhau gwasanaethau cefnogi a recriwtio prif swyddog amser llawn sy'n gyfrifol am ataliaeth a chymorth i deuluoedd.
 - ↳ Rydym ni'n gweithio mewn partneriaeth â'n cydweithwyr yn y gwasanaethau i oedolion i sicrhau ein bod yn ymateb i heriau fel yr argyfwng costau byw presennol, ac yn sicrhau bod teuluoedd yn gallu cyrchu cefnogaeth pan fydd angen hynny arnyn nhw.
 - ↳ Sylfaen ein dull gweithredu yw beth sy'n bwysig i blant a theuluoedd ac er mwyn deall yr effaith rydym ni'n ei chael a'r gwahaniaeth rydym ni'n ei wneud mae gennym ni Arweinydd Strategol ar gyfer Cyfranogiad ac Ymgysylltiad. Mae gwranddo ar lais y plentyn yn allweddol yn ein holl waith. Ym mis Mai 2022 llwyddwyd i gyflawni Nod Barcud Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol Plant yng Nghymru. Rydym ni hefyd yn hybu Hawliau Plant trwy ddatblygu Hyrwyddwyr Hawliau Plant ar draws y gwasanaeth a gweithio'n unol ag erthyglau Confensiwn y Cenedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP).
 - ↳ Buon ni'n gweithio gydag asiantaethau partner: statudol, trydydd sector a gwirfoddol. Ni fyddai ymarfer effeithiol mewn ymateb i angen, bygythiad, risg a niwed yn bosibl heb weithio mewn partneriaeth, ac mae llawer o fforymau wedi'u sefydlu i ddod â phartneriaid allweddol ynghyd er mwyn ymateb i dueddiadau, patrymau a themâu cyfredol a rhai sy'n dod i'r amlwg. Y fforymau hynny yw: Cyfarfod Rhyngwyneb Partneriaeth, y Grŵp Diogelu Gweithredol Lleol, Grŵp Partneriaeth Strategol SAFE.



Amcan Llesiant 1 - Y Dechrau Gorau mewn Bywyd

- Er mwyn sicrhau bod y bobl ifanc hynny sy'n gadael addysg amser llawn lwybr clir i symud i hyfforddiant pellach neu addysg neu waith, mae Gwasanaeth Cyflogadwyedd, Sgiliau a Hyfforddiant CNPT a'r Gwasanaeth Ieuencid yn parhau i ddarparu gwasanaeth, ochr yn ochr â'r Adran Gwaith a Phensiynau, ysgolion, colegau ac asiantaethau allanol eraill i annog ymgysylltu. Mae'r Grŵp Cefnogi Ieuencid Amlasiantaeth yn dal i gyfarfod bob chwarter, gan ddod ag amrywiaeth o bartneriaid ynghyd i drafod diweithdra ieuencid a digartrefedd ieuencid.

Mae canran o bobl ifanc 16-24 oed mewn cyflogaeth ar draws Castell-nedd Port Talbot wedi codi o 50.6% yn 2021 i 65.8% yn 2023, cynnydd cadarnhaol sylweddol

Mesur Cyswllt
â'r Cynllun
Corfforaethol


- Rydym ni'n sicrhau ei fod yn glir i bobl ifanc sy'n gadael addysg amser llawn sut mae symud ymlaen i hyfforddiant neu addysg bellach mewn nifer o ffyrdd, gan gynnwys:
 - ↳ Mae ysgolion yn gweithio gyda Gyrfa Cymru i sicrhau bod disgyblion yn cael cyfleoedd i drafod llwybrau ar ôl ysgol
 - ↳ Mae'r Gwasanaeth Ieuencid hefyd yn darparu cefnogaeth ychwanegol os bydd angen i ddisgyblion, ac ar ôl taith yr ysgol.
 - ↳ Mae Sgiliau a Hyfforddiant yn darparu ysgolion haf i'r rhai sydd angen cefnogaeth ychwanegol ar ôl i'r ysgol ddod i ben ym mlwyddyn 11, a chyrsgiau ymgysylltu i bobl ifanc.
- Fe wnaethom ni barhau â'n gwaith i gefnogi pobl ifanc sy'n gadael addysg amser llawn, i'w helpu i symud ymlaen i hyfforddiant neu addysg bellach neu waith.
- Ar hyn o bryd rydym ni'n rhoi ALNET ar waith ar draws y sector ôl-16, ac yn gweithio ar y cyd â Phartneriaid i gynyddu nifer y bobl ifanc ag ADY sy'n cael mynediad at addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth ôl-16. Datblygwyd protocol ôl-16 drafft sy'n cynnwys fframwaith pontio gwell (MATSM – Cyfarfodydd Sgrinio Pontio Amlasiantaeth). Mae hyn wedi cael ei beilota'n llwyddiannus yn Ysgol Gyfun Llangatwg, a bydd yn cael ei estyn i holl ysgolion uwchradd CNPT.

Mae nifer y bobl ifanc sy'n nodi nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant rhwng 16 ac 18 oed wedi codi o 3.6% yn 2021-2022 i 4.3% yn 2022-2023.

Mesur Cyswllt
â'r Cynllun
Corfforaethol



Amcan Llesiant 1 - Y Dechrau Gorau mewn Bywyd



- Rydym wedi cynyddu nifer y cyfleoedd profiad gwaith a phrentisiaeth mae'r cyngor yn eu cynnig i bobl ifanc (16-24 oed) o 19 yn 2021-2022 i 28 yn 2022-2023, ac mae 26 o'r rheiny wedi cwblhau eu prentisiaeth a chyflawni cymhwyster. Ar hyn o bryd rydym ni'n gweithio gyda Wildfox, y Porthladd Rhydd a busnesau eraill lleol fel rhan o'r ymarferion mapio sgiliau i sicrhau bod profiad gwaith, gwirfoddoli, prentisiaethau a phrentisiaethau gradd yn cael eu harchwilio fel llwybr i mewn i ddiwydiannau lleol ar gyfer ein pobl yn CNPT.
- Rydym ni'n parhau â'n rôl fel rhieni corfforaethol ac yn helpu pobl ifanc sy'n gadael gofal i dderbyn pontio priodol â chefnogaeth i'w galluogi i gyrchu a chynnal llety addas sy'n cynnwys gweithio gyda phobl ifanc, gofalywyr maeth, ein cydweithwyr yn yr adran Tai, ac adolygu'n hanghenion llety i bobl ifanc yn barhaus.

Cyfanswm y bobl ifanc a bontiodd o flwyddyn 11 heb fod mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant (NEL) oedd 35. Roedd hyn yn cyfateb i 2.2% o ymadawyr Blwyddyn 11 a dyma'n ail ffigur isaf erioed o ran NEL. Hefyd dyma'r agosaf a fuom erioed i gyfartaledd Cymru, sef 2.1% yn 2022-23, ac roeddem yn safle 13 yng Nghymru.

Mesur Cyswllt
â'r Cynllun
Corfforaethol




Amcan Llesiant 1 - Y Dechrau Gorau mewn Bywyd

- Sefydlwyd y Grŵp Arweinyddiaeth Plant a Phobl Ifanc, ac mae gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu Cynllun Plant a Phobl Ifanc a Strategaeth Blynnyddoedd Cynnar, fel bod yr holl wasanaethau i blant a theuluoedd yn hawdd eu hadnabod a'u defnyddio, yn diwallu anghenion pobl, a bod ein cymunedau'n croesawu plant.
- Daliwyd ati i ddarparu cyfleoedd i alluogi pob dysgwr, teulu a gofalwr elwa o'r cyfle i ddysgu, gwerthfawrogi a ffurfio'u bywydau trwy gyfrwng y Gymraeg. Fe wnaethon ni roi blwyddyn olaf cynllun gweithredu'r WESP blaenorol ar waith, a chyflawni'n targedau.


Mae 19.7% (287 disgybl) o'n plant 5 oed yn derbyn addysg trwy gyfrwng y Gymraeg, ac mae hynny wedi codi o 18.5% (279 o ddisgyblion), gyda 13.1% (208) o'r disgyblion blwyddyn 11 yn astudio Cymraeg iaith gyntaf, sydd hefyd wedi codi o 12.1% (196 o ddisgyblion).

Mesur Cyswllt
â'r Cynllun
Corfforaethol



Amcan Llesiant 1 - Y Dechrau Gorau mewn Bywyd

- Wrth i'n Cynllun Strategol ar gyfer y Gymraeg mewn Addysg gael ei ddatblygu a'i weithredu, byddwn ni'n cryfhau ymhellach eich hymrwymiad i'r iaith Gymraeg, ein traddodiadau a'n diwylliant. Rydym wedi cyrraedd targedau ein blwyddyn gyntaf ac wedi agor yr ysgol gychwynnol Gymraeg gyntaf, Ysgol Gynradd Gymraeg Tregeles (gweler y ddolen isod). Mae'r Cynllun yn manylu ar sut rydym ni'n bwriadu cefnogi addysg Gymraeg a'i datblygu ymhellach mewn ysgolion ac yn y cymunedau ehangach, a sut byddwn ni'n cynllunio ar gyfer twf yn y dyfodol yn ystod y 10 mlynedd nesaf (Ionawr 2022 - Ionawr 2032).
- Rydym ni'n gweithio ar y cyd â chydweithwyr ar draws Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe a'r sector Sefydliadau Addysg Bellach, ac yn gwneud cynnydd da o ran adolygu ein trefniadau cynllunio, comisiynu a chyflwyno gwasanaeth ar y cyd i blant sydd ag anghenion ychwanegol



Cofleidio'r Gymraeg ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol

Mae Ysgol Gynradd Gymraeg Tregeles ym Mynachlog Nedd, sydd newydd gael ei hadnewyddu, wedi cael ei datblygu'n rhan o Gynllun Strategol Cyngor Castell-nedd Port Talbot ar gyfer y Gymraeg mewn Addysg. Mae'n darparu amgylchedd dysgu cyffrous, llawn ysgogiad i'r disgyblion, ac yn cofleidio egwyddorion y Cwricwlwm Newydd i Gymru, gyda'r nod o hyrwyddo'r iaith Gymraeg, llesiant, cydraddoldeb a chynhwysiad.

Mae'r datblygiad cyffrous yn adlewyrchu gweledigaeth y cyngor ar gyfer hybu a sicrhau mynediad at addysg Gymraeg i ddisgyblion yng Nghastell-nedd Port Talbot. Dylai pob plentyn elwa o'r cyfle i ddysgu, gwerthfawrogi a ffurfio'u bywydau trwy gyfrwng y Gymraeg.

“Bydd Ysgol Gynradd Gymraeg Tregeles yn cynnig darpariaeth a chefnogaeth o safon uchel, fel bod pob dysgwr, eu teuluoedd a'r gymuned ehangach yn elwa o fynediad at addysg a phrofiadau cyfrwng Cymraeg.”

[**Mynnwch gip ar Ysgol Gynradd Gymraeg Tregeles – Mynachlog Nedd - YouTube**](#)



Myfyrio ar 2022-2023

Amcan Llesiant 1 - Y Dechrau Gorau mewn Bywyd

Prifathro o waith i'w gwneud.

Aseswyd bod 4 cam gweithredu 'fymryn oddi' ar y targed yn 2022-2023, fel a ganlyn:


- Mae'r data presenoldeb dros dro ar gyfer blwyddyn academaidd 2022-2023 yn dangos bod y ffigurau presenoldeb wedi codi rhyw hanner canradd o gymharu â'r flwyddyn flaenorol, a bydd y ffigurau terfynol yn cael eu cyhoeddi yn ystod y misoedd nesaf. Fodd bynnag, nid yw'r cynnydd ar gyfradd y gellir ei chymharu ag awdurdodau lleol eraill yng Nghymru sydd wedi cyflawni cynnydd mwy. Nodwyd hefyd bod bwlch presenoldeb sylweddol rhwng disgyblion sydd yn y categori cymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim, ac eraill, a hefyd rhwng disgyblion a ddynodwyd fel rhai ag Anghenion Addysgol Arbennig (AAA)/Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) a'r rhai heb AAA/ADY.



Myfyrio ar 2022-2023


Amcan Llesiant 1 - Y Dechrau Gorau mewn Bywyd

Rydym wedi gweld nifer y disgyblion sy'n cael eu gwahardd o'r ysgol yn codi o 235 o ddisgyblion i 760 o ddisgyblion yn ystod blwyddyn academaidd 2022-23, gan fynd â chyfanswm ffigur y gwaharddiadau i 3.62%, o gymharu â 2.47% yn 2021-2022. Mae nifer y gwaharddiadau wedi codi'n sydyn hefyd, fel y dangosir isod.



Mesur Cyswllt â'r Cynllun Corfforaethol

Mesurau Cyswllt â'r Cynllun Corfforaethol



Nid oes data ar gael ar hyn o bryd ar gyfer nifer y disgyblion nad ydynt yn rhan o'r system addysg.

% y plant, y bobl ifanc a'r teuluoedd sy'n cyrchu cymorth ymyrraeth gynnar – nid oes data ar gael ar hyn o bryd.



Rhagor o waith i'w wneud:

Mae'r Panel Ymyrraeth Gynnar ac Ataliaeth (EIP) wedi adrodd am gynnydd yng nghymhlethdod anghenion atgyfeiriadau, sy'n rhoi gwasanaethau ymyrraeth gynnar o dan bwysau ychwanegol i ddiwallu'r anghenion hynny. Ar ben hynny, mae gwybodaeth fonitro'r cyngor yn amlygu bod methiant plant a theuluoedd i ymgysylltu â gwasanaethau yn destun pryder. O ganlyniad, mae'r awdurdod lleol yn cynnal adolygiad o broses y panel EIP i sicrhau bod ymyrraeth gynnar a chefnogaeth yn cael eu cyflwyno'n effeithiol. Defnyddir yr adolygiad hwn i lywio a datblygu gwaith yr EIP a gwasanaethau cefnogi. Mae datblygiad llwyddiannus parhaus gwasanaeth cefnogi'r panel EIP yn flaenoriaeth allweddol i'r gwasanaeth.

Er mwyn sicrhau bod ymyrraeth gynnar effeithiol ar waith ar gyfer ein plant, ein pobl ifanc a'n teuluoedd, mae ein tîm Dysgu Cymunedol i Oedolion wedi bod yn gweithio gydag ysgolion ac yn darparu llwybrau dilyniant a Dysgu i'r Teulu mewn 9 ysgol. Bu'r sesiynau yn arbennig o lwyddiannus lle symudodd y rhieni ymlaen i ystod o gyrsiau, e.e. Diogelwch Bwyd, Gofal Plant, Seicoleg Plant, Cymraeg yn y Dosbarth, a Choginio ar gyllideb, ADHD, Ymwybyddiaeth o Awtistiaeth. Mae'r holl rieni sy'n ymwneud â sesiynau cyfredol wedi cwblhau o leiaf un cwrs achrededig Llythrennedd/Rhifedd y tymor diwethaf. Ar ben hynny, mae rhaglen o sesiynau caneuon a rhigymau ym mhob un o'r wyth llyfrgell yn y sir wedi rhoi cyfleoedd i blant ifanc a'u teuluoedd ddatblygu sgiliau llythrennedd gyda'i gilydd, yn ogystal â bod yn gyfle i'r plant ddatblygu sgiliau rhyngweithio cymdeithasol a chyfathrebu.

Mae angen rhagor o waith i ddatblygu systemau fydd yn cefnogi Gofalwyr Ifanc a nodwyd mewn ysgolion a datblygu fforwm gofalwyr ifanc. Mae'r galw presennol am y Grŵp Gofalwyr Ifanc yn fwy na'r lleoliad a'r capasiti staff sydd gennym, ac o ganlyniad, mae'n cael ei gynnig unwaith bob pythefnos yn hytrach nag yn wythnosol. Ar ben hynny, mae trafndiaeth i'r Grŵp Gofalwyr Ifanc yn rhwystr, ac ar hyn o bryd nid oes digon o gyllid i ymateb i'r galw. Fodd bynnag, roedd peth o'n cynnydd cadarnhaol yn ystod 2022-23 yn cynnwys:

- ↳ Sesiynau cynyddu ymwybyddiaeth i'n galluogi i adnabod gofalwyr ifanc posibl, a gyflwynwyd i 20 o ysgolion cynradd yr oedd 629 o bobl ifanc yn eu mynychu a 6 ysgol uwchradd roedd 562 o bobl ifanc yn eu mynychu. Cyflwynwyd sesiynau hefyd i grwpiau a dargedwyd, gan gynnwys LHDTTC+, Clwb Iaith a Lleferydd a Chlybiau Ieuencid roedd 84 o bobl ifanc yn eu mynychu. Cyflwynwyd sesiynau Ymwybyddiaeth o Ofalwyr Ifanc i gyfanswm o 1,275 o bobl ifanc yn ystod y cyfnod yma.
- ↳ Ar hyn o bryd mae gennym ni ddarpariaeth ddifyr a llwyddiannus iawn, y mae'r Gofalwyr Ifanc a'r teuluoedd yn ei gwerthfawrogi'n fawr. Cyfeiriwyd 211 o bobl ifanc at y ddarpariaeth Gofalwyr Ifanc, a chyflwynwyd 36 o sesiynau grŵp wythnosol, gyda 15 o ofalwyr ifanc yn bresennol bob nos ar gyfartaledd. Roedd angen cymorth ar 94 o'r gofalwyr ifanc hyn gyda'u trafndiaeth i gael mynediad i'r ddarpariaeth.
- ↳ Cynrychiolir Gofalwyr Ifanc ar y Cyngor Ieuencid; mae 2 sedd ddynodedig i Ofalwyr Ifanc ar y Cyngor Ieuencid. Rydym wedi parhau i ddefnyddio'r cerdyn adnabod i Ofalwyr Ifanc. Roedd 22 o Ofalwyr Ifanc yn rhan o'r cynllun Peilot Cardiau Adnabod yn ystod y cyfnod yma.

Myfyrio ar 2022-2023

Amcan Llesiant 2 – Bod pob Cymuned yn Llewyrchus ac yn Gynaliadwy

Roeddem ni'n cyrraedd y nod o ran cyflawni'r hyn roeddem wedi bwriadu ei wneud yn ystod 2022-23 yn achos yr amcan llesiant hwn. O'r 15 o gamau allweddol roeddem ni wedi bwriadu eu cyflawni yn ystod y flwyddyn, roeddem 'ar y llwybr cywir' gydag 14, ac roedd 1 fymryn oddi ar y nod.

Darparwyd **£139,000** i **39 o sefydliadau** trwy'r **Grant Tlodi Bwyd**

89 o fusnesau wedi cofrestru gyda **2** CNPT Prynu Lleol



Cynyddwyd nifer y Cydlynwyr Ardal Leol (LACs) o 6 i 14, a buon nhw'n cefnogi 1,127 o bobl ac yn helpu i sefydlu 13 grŵp cymunedol newydd.


Mae cronfa Lleoedd Cynnes Llywodraeth Cymru yn helpu i ddarparu **32 o Leoedd Cynnes** mewn cymunedau, y bu **5,819 o bobl yn eu mynychu**



cyflogwyr dros ofalwyr ar waith ar draws y cyngor



98% o aelwydydd â mynediad at y rhyngwrdd, gyda chyflymder lawrlwytho o 30Mbit o leiaf



Ymunodd 1442 o aelodau

Datblygwyd partneriaeth gyda Chymru Gynnes i gyflwyno menter gwerth £2 i gefnogi'r rhai sy'n teimlo effaith yr argyfwng ynni fwyaf



Gweinyddwyd dros £9m o Gyllid Llywodraeth y Deyrnas Unedig a Llywodraeth Cymru trwy'r Cynllun Cymorth Tanwydd, y Grant Gofalwyr Di-dâl a'r cynllun Hunanyngysu

Gostyngiad yn yr achosion o ymddygiad gwrth-gymdeithasol


Yn y ddwy flynedd ddiwethaf mae'r achosion o ollwng sbwriel yn anghyfreithlon wedi gostwng o 1,566 i 886



1,849 o blant wedi cael gwersi diogelwch cymunedol; cam-drin yn y cartref a seiberdroseddu trwy ein Criw Croch



Cododd nifer yr asesiadau o anghenion gofalwyr a gynhaliwyd o 167 yn 2021-22 i 225 yn 2022-23



Cefnogwyd **137** o unigolion o aelwydydd di-waith neu sydd â chyflwr iechyd hirdymor

2,810

o ficro-fentrau yn 2022, o gymharu â 2,750 yn 2021

Cafodd **120** o ddiodefwr cam-drin domestig risg uchel gymorth ychwanegol, a chafodd eu cartrefi eu gwneud yn fwy diogel/sicr



Myfyrio ar 2022-2023

Amcan Llesiant 2 – Bod pob Cymuned yn Llewyrchus ac yn Gynaliadwy

Mae sicrhau bod ein cymunedau yn llewyrchus ac yn gynaliadwy yn golygu bod pobl yn byw bywydau iach, hir a da mewn cymunedau lle mae pobl yn cyd-dynnu'n dda ac yn cefnogi ei gilydd. Yn ystod Cynllun Corfforaethol 2022-2027, gofynnwyd:

Pam mae hyn yn bwysig?

Mae Covid-19 wedi cael effaith niweidiol ar lawer o bobl, gyda llawer yn teimlo'n ynysig ac yn unig. Bu effaith anghymesur ar bobl ifanc, menywod a phobl o gefndir BME; roedd 144,000 o bobl yn byw yn CNPT yn 2021.

Mae disgwyl i hyn godi i 147,000 erbyn canol y 2030au; mae'r boblogaeth yn heneiddio – mae nifer y bobl sydd wedi ymddeol yn cynyddu, ond mae nifer y bobl ifanc yn lleihau; mae pobl yn byw bywydau hwy a iachach, ond mae hyd oes disgwyledig a hyd oes disgwyledig iach yn is na gweddill Cymru ac mae'r bwlch rhwng y rhai mwyaf a lleiaf cefnog yn sylweddol; mae'r Gwerth Ychwanegol Gros (GVA) yn is na chyfartaledd Cymru; mae 27% o blant yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim; amcangyfrifir bod dros 20,000 o ofalwyr di-dâl yn y fwrdeistref sirol; mae angen mwy o dai fforddiadwy o safon; ac rydym ni'n disgwyl gweld cynnydd o 35% yn y rhai 65+ oed a fydd yn byw ar eu pen eu hunain erbyn 2035.

Crynodeb o'r Cynnydd yn ystod 2022-2023

At ei gilydd rydym yn cyrraedd y nod o ran cyflawni'r amcan llesiant hwn yn 2022-2023. Mae Covid-19 wedi cael effaith aruthrol ar y system gofal cymdeithasol, gan gynnwys y galw cynyddol am ofal cartref, fel bod unigolion yn gallu aros gartref yn hytrach na mynd i gartref gofal, a darparwyr yn wynebu heriau recriwtio i ymateb i'r galw cynyddol hwnnw. Ym mis Mawrth 2023, roedd y cyngor yn cefnogi 694 o bobl trwy gyflwyno 9,315 awr o ofal cartref yr wythnos. Mae'r ffigur yma'n cynnwys darpariaeth a gomisiynir yn allanol a darpariaeth fewnol (y Tîm Llesiant Cymunedol).

Mae'n debygol y bydd y galw hwn yn parhau i gynyddu yn ystod y blynyddoedd nesaf, i gefnogi ein poblogaeth sy'n heneiddio. Ymhlith cyflawniadau 2022-23 mae cynyddu nifer y cydlynwyr ardal leol o 6 i 14. Bu'r cydlynwyr ardal leol hyn yn cefnogi 1,127 o bobl ac yn helpu i sefydlu 13 o grwpiau cymunedol newydd. Fel cyngor, buom ni'n gweinyddu dros £9m o gyllid Llywodraeth y Deyrnas Unedig a Llywodraeth Cymru trwy'r Cynllun Cymorth Tanwydd, y Grant Gofalwyr Di-dâl a'r Cynllun Hunanynysu; fe wnaethom ni gynyddu nifer yr asesiadau o anghenion gofalwyr a gynhaliwyd o 167 yn 2021-22 i 225 yn 2022-23.



Myfyrio ar 2022-2023

Amcan Llesiant 2 – Bod pob Cymuned yn Llewyrchus ac yn Gynaliadwy

Er mwyn i ni fedru trawsffurfio gwasanaethau digartrefedd a bodloni gofynion Llywodraeth Cymru, fel yr amlygwyd yn “Dileu Digartrefedd – Cynllun Gweithredu Lefel Uchel 2021-26”, mae ein Cynllun Ailgartrefu Cyflym wedi cael ei ddatblygu a’i gyhoeddi yn ystod y flwyddyn, gan symud i ffwrdd oddi wrth ddefnyddio llety dros dro. Mae’r Cynllun yn cymryd i ystyriaeth sefyllfa bresennol digartrefedd ar draws y fwrdeistref sirol, ac yn pennu trawsffurfio’r system gyfan, gan gynnwys y camau sy’n ofynnol i gyflawni disgwyliadau Llywodraeth Cymru, gyda chyfnod pontio o bum mlynedd fel bod modd cyflawni’r deilliannau a ddymunir.

Er ein bod wedi cryfhau ein trefniadau tai a digartrefedd, gan gynnwys prydlesu 39 uned o lety dros dro i aelwydydd digartref (cynnydd o gymharu â’r 27 uned oedd ar gael gennym yn 2021-22), mae canran yr aelwydydd a ataliwyd rhag bod yn ddigartref wedi gostwng. Mae angen nodi hefyd bod canran y bobl (16+) sy’n byw mewn cartrefi difreintiedig yn sylweddol yn dangos cynnydd yn y fwrdeistref ac ar draws Cymru. (Yn seiliedig ar ganlyniadau Arolwg Cenedlaethol Cymru).

Cymeradwyodd ein Cabinet £4.25m o gyllid ychwanegol i wneud trefi, cymoedd a phentrefi’n “lanach ac yn fwy gwyrdd”, ac mae glendid ein strydoedd wedi gwella, gyda llai o achosion o ollwng sbwriel yn anghyfreithlon; roedd llai o achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol yn ystod y flwyddyn, a chafodd 120 o ddiodefwrwr cam-drin domestig risg uchel gymorth ychwanegol, a gwnaed eu cartrefi’n fwy diogel/sicr (fodd bynnag, cododd nifer yr achosion o gam-drin domestig risg uchel ymhellach yn ystod 2022-23) ac mae’r cynllun Patrôl Pawennau yn dal i fynd o nerth i nerth, gyda 1,442 o aelodau wedi ymuno bellach.

Yn ogystal â’r gwaith a wnaed i fuddsoddi yn ein hysgolion yn ystod y blynyddoedd diwethaf, yn ystod 2022-2023 rydym wedi croesawu amrywiaeth o fuddsoddiad cyfalaf yn ein cymunedau, a chyfleoedd cyffrous i’r fwrdeistref sirol gyfan, a gwelwyd nifer o weledigaethau yn dwyn ffrwyth.

Byddwn ni’n symud ymlaen ymhellach gyda’n gwaith i ddatblygu polisi corfforaethol fydd yn annog ac yn cefnogi staff y cyngor i wirfoddoli.

Cynnydd o ran Camau Gweithredu a Mesurau ein Cynllun Corfforaethol yn 2022-2023:

- O’r 15 cam gweithredu allweddol a nodwyd i’w cyflawni yn ystod 2022-2023 yn y Cynllun Corfforaethol, roedd 14 ar y llwybr cywir, ac 1 fymryn oddi ar y targed. Mae ein mesurau o’r Cynllun Corfforaethol wedi cael eu cysylltu â’r camau gweithredu perthnasol isod.
- Datblygwyd ein gwaith ar lefel y gymdogaeth, gan fapio asedau lleol (a mapio nodweddion bregus cymunedau) a bydd yr wybodaeth hon yn sylfaen ar gyfer canfod anghenion cymunedau a datblygu ymyriadau i ymdrin yn effeithiol â’r anghenion hynny.



Myfyrio ar 2022-2023

Amcan Llesiant 2 – Bod pob Cymuned yn Llewyrchus ac yn Gynaliadwy

- Daliwyd ati i weithio gyda'r gymuned a phartneriaid eraill i ganfod cyfleoedd i ddatblygu rhwydweithiau gofal a chymorth anffurfiol ychwanegol. Dyma rywfaint o'r gwaith yma:
 - ↳ Yn ystod 2022-23 roedd gan y Gwasanaeth Ataliaeth ac Ymyrraeth Gynnar 26 o wirfoddolwyr cymeradwy, gydag 21 yn cefnogi unigolion a gyfeiriwyd at y Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion.
 - ↳ Rhoi gwasanaeth cyfeillio ar waith fel rhan o gynnig Ataliaeth ac Ymyrraeth Gynnar Gofal Cymdeithasol i Oedolion. Dyma'r ddarpariaeth wirfoddoli gyntaf a sefydlwyd ym maes Gofal Cymdeithasol i Oedolion, ac mae'n dilyn ymlaen o lwyddiant y Cynllun Iach a Diogel yn ystod y pandemig.
 - ↳ Mae gofalwyr di-dâl yn ased amhrisiadwy, ac i gydnabod hynny sefydlwyd tîm penodol fel bod modd canolbwyntio ar waith i archwilio dulliau presennol o gyflwyno gwasanaeth a gwella'r berthynas weithredol rhwng gwasanaethau, gofalwyr di-dâl a darparwyr a gomisiynwyd.
 - ↳ Mae adolygiad mewnol o brosesau a gweithdrefnau gofalwyr di-dâl wedi cychwyn, ac mae bwriad i'w gwblhau erbyn diwedd 2023.
 - ↳ Cynyddwyd nifer yr asesiadau o anghenion gofalwyr (di-dâl neu gyflogedig) o 167 yn 2021-22 i 225 yn 2022-23
 - ↳ Rhoddwyd 'Cyflogwyr dros Ofalwyr', menter gan yr Ymddiriedolaeth Ofalwyr, ar waith ar draws y cyngor, i sicrhau bod staff sy'n darparu gofal di-dâl i eraill yn cael eu cydnabod a'u cefnogi yn y gweithle.

Mesurau
Cyswllt â'r
Cynllun
Corfforaethol

Mae data Arolwg Cenedlaethol Cymru yn dangos bod 30% o'r bobl fu'n rhan o'r arolwg yng Nghastell-nedd Port Talbot yn gwirfoddoli. Mae hyn yr un fath â'r ffigur Cymru Gyfan ar gyfer 2022-23.

Mae data Arolwg Cenedlaethol Cymru yn dangos bod 17% o bobl CNPT yn yr arolwg yn teimlo'n unig. Dyma un o'r canrannau uchaf yng Nghymru, ac mae'n uwch na ffigur Cymru gyfan, sef 13%.



Roedd 5 o fesurau eraill Arolwg Cenedlaethol Cymru wedi'u cynnwys yng Nghynllun Corfforaethol 2022-27 er mwyn asesu ein cynnydd, ond nid oedd y rhain yn rhan o'r arolwg yn 2022-2023.

Amcan Llesiant 2 – Bod pob Cymuned yn Llewyrchus ac yn Gynaliadwy

Mesurau
Cyswllt â'r
Cynllun
Corfforaethol

- Cynyddwyd nifer y Cydlynwyr Ardal Leol (LAC) o 6 i 14 i gefnogi'r gymuned. Mae Cydlynwyr Ardal Leol yn gweithio gyda'r trigolion i greu cysylltiadau â rhwydweithiau cefnogi lleol, er mwyn gwella llesiant a lleihau'r galw am wasanaethau gofal a iechyd. Mae'r cynnydd yma'n golygu ein bod yn gallu darparu cefnogaeth ar draws y fwrdeistref, yn hytrach nag mewn rhai ardaloedd yn unig, ac mae hynny wedi sicrhau mwy o gysondeb yn ein ffordd o weithio. Yn ystod 2022-23bu 1,127 o bobl yn defnyddio'r gwasanaeth LAC, a byddai pob un ohonynt wedi derbyn cymorth, gyda rhyw 500 o bobl yn cael cymorth un i un ar unrhyw adeg benodol.
- Mapiwyd a nodwyd bod 107 o grwpiau yn cael eu defnyddio'n hybiau cymunedol ar draws CNPT, ac rydym ni wrthi'n creu map digidol o'r hybiau hyn. Yn ystod 2022-23, sefydlwyd 13 o grwpiau cymunedol newydd gyda chefnogaeth ein Cydlynwyr Ardal Leol.
- Mae'r cydweithio â Chyngor Gwasanaethau Gwirfoddol (CVS) Castell-nedd a grwpiau cymunedol a gwirfoddol yn parhau, a hwylusodd CVS CNPT sefydlu tri fforwm ar draws y Clystyrau Gofal Sylfaenol. Bydd y gwaith yma'n helpu i gynyddu cyfleoedd i bobl leol gyfranogi mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw, ac yn darparu mwy o gefnogaeth i waith cyngorwyr lleol yn eu wardiau.
- Darparwyd cyllid i gymunedau trwy sawl cynllun grant i helpu gyda chostau byw, oedd yn cynnwys:
 - ➔ Cefnogaeth i 39 o sefydliadau trwy'r Grant Tlodi Bwyd, oedd yn creu cyfanswm o £139,000;
 - ➔ Cymorth o gronfa Mannau Cynnes Llywodraeth Cymru, i ddarparu 32 o Fannau Cynnes mewn cymunedau, y bu 5,819 o bobl yn eu mynychu, a lle gallai pobl ymgynnull i ysgafnhau'r baich o ran costau ynni eu haelwyd. Cynigiodd y cyngor lawer o'i safleoedd ei hun, gan gynnwys llyfrgelloedd, canolfannau cymunedol, a theatrau.
 - ➔ Gweinyddwyd dros £9m o gyllid Llywodraeth y Deyrnas Unedig a Llywodraeth Cymru trwy Gynllun Cymorth Tanwydd, Grant Gofalwyr Di-dâl a Chynllun Hunanynysu
 - ➔ Cychwynwyd partneriaeth gyda Chymru Gynges i gyflwyno menter £2m y cyngor i gefnogi'r rhai roedd yr argyfwng ynni yn effeithio fwyaf arnyn nhw.

Mae data Arolwg Cenedlaethol Cymru yn dangos bod gan 48% o bobl CNPT yn yr arolwg sgôr llesiant meddyliol oedolyn o 48, sydd yr un fath â'n sgôr yn 2021-2022.

Mae sgoriau Awdurdodau Lleol yn amrywio o 46-50, ac roedd gan 15 o'r 22 awdurdod lleol sgoriau o 48 neu 49.

Ni fesurwyd % y trigolion sy'n teimlo eu bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar eu hardal leol yn Arolwg Cenedlaethol Cymru 2022-23.

Mae 108 o'n hadeiladau a'n hasedau (e.e. lawntiau bowlio) ar brydles i grwpiau Sector Gwirfoddol, ac 17 i Gynghorau Tref a Chymuned

Mae canlyniadau Arolwg Cenedlaethol Cymru yn adrodd bod canran y bobl (16+) sy'n byw mewn aelwydydd materol ddifreintiedig wedi codi yn y fwrdeistref, o 14% yn 2021-2022 i 21% yn 2022-2023. Mae cynnydd i'w weld hefyd yng nghyfradd Cymru gyfan, o 11% i 16%.

Nid oes gwybodaeth wedi'i diweddarau ar gael i fesur nifer y bobl sy'n byw mewn tlodi incwm aelwyd o gymharu â chanolrif Cymru, ac nid oes data ar gael i fesur y bwlch o ran cyfradd cyflogaeth rhwng y rhai â chyflwr iechyd hirdymor a'r gyfradd gyflogaeth gyffredinol. Fodd bynnag, yn ystod 2022-23, cefnogodd tîm cyflogadwyedd CNPT 137 o unigolion o aelwydydd di-waith neu oedd â chyflwr iechyd hirdymor /anabledd i gael cyflogaeth.

Amcan Llesiant 2 – Bod pob Cymuned yn Llewyrchus ac yn Gynaliadwy

- Roedd gan y Gwasanaeth Ataliaeth ac Ymyrraeth Gynnar 26 o wirfoddolwyr cymeradwy, gyda 21 yn cefnogi unigolion a gyfeiriwyd at y Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion
- Ym mis Gorffennaf 2022, cymeradwyodd y Cabinet £4.25m o gyllid ychwanegol i wneud trefi, cymoedd a phentrefi yn “lanach ac yn wyrddach”. Yn ystod 2022-23, crewyd 12 o swyddi newydd gweithrediadol i ymgymryd â gwaith megis ymylon llwybrau, clirio gordyfiant, glanhau ychwanegol etc. Cyflwynodd y tîm Gwasanaethau Cymdogaeth welliant sylweddol ar draws y fwrdeistref. Canfu arolwg gan Cadwch Gymru’n Daclus fod 95.7% (mae perfformiad Cymru Gyfan, sef 96%, yn gymaradwy) o’n strydoedd yn lân yn 2022-23, o gymharu â 92.85% yn 2021-22.



Cymeradwyo £4.25 miliwn i wneud CNPT yn “lanach a gwyrdach”

Ym mis Rhagfyr 2022 cymeradwywyd rhaglen gwerth £4.2m o waith ychwanegol i wella trefi, cymoedd a phentrefi trwy eu gwneud yn “lanach ac yn wyrddach”.

Roedd y rhaglen yn cynnwys £200,000 i’w wario ar welliannau i doiledau cyhoeddus, £445,000 ar lendid (oedd yn cynnwys sugnwyr ac ysgubwyr stryd trydan newydd), £142,000 i dorri’r gwair yn well, £800,000 ar feysydd chwarae a manau gwyrdd gwell, a £300,000 ar gysgodfannau bws gwell. Ar ben hynny roedd £344,000 i gynnal a chadw pontydd cerddwyr, £201,000 ar wasanaethau gwastraff gwell (gan gynnwys cerbydau ychwanegol), bydd ychydig dros £1 filiwn yn cael ei wario ar wella priffyrdd (patshys jet ar lonydd gwledig, gwaith arwyneb ychwanegol yn y cymoedd a pheiriannau ceudyllau) a £150,000 ar waith ychwanegol i reoli coed.

Roedd £200,000 yn y gyllideb ar gyfer gwelliannau i Barc Gwledig y Gnoll (ailadeiladu/ailddylunio’r toiledau, cyswllt trydan a pharc antur), £50,000 ar gyfer strwythurau gwell yng nghefn gwlad a £290,000 ar gyfer gwelliannau ad-hoc ar Lan Môr Aberafan (gan gynnwys y gerddi suddedig), Canol Tref Castell-nedd (cynwysyddion plannu a storio), atgyweirio/amnewid arwyddion stryd yn y dref a’r cwm, Parc Coffa Talbot a gorsaf fysiau Gerddi Victoria.


Roedd yr arian, o gyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru a rhaglen gwariant cymeradwy’r cyngor, yn golygu bod modd cynnal y rhaglen helaeth hon o waith glanhau a gwyrddio, i gefnogi un o flaenoriaethau cynharaf Clymblaid Enfys y cyngor – gwella’r “parth cyhoeddus”. Mae hwn yn gam pwysig ymlaen o ran cyflawni’r nod o wella’r amgylchedd i gymunedau a chymdogaethau ar draws CNPT, gan fod trigolion yn dweud wrthym ni eu bod am gael cymdogaethau diogel, glân a deniadol.

Yn ystod 2022-23, crewyd 12 o swyddi newydd gweithrediadol i ymgymryd â gwaith fel ymylon llwybrau, clirio gordyfiant, glanhau ychwanegol etc, a chyflwynodd y tîm Gwasanaethau Cymdogaeth welliannau sylweddol ar draws y fwrdeistref.

Myfyrio ar 2022-2023

Amcan Llesiant 2 – Bod pob Cymuned yn Llewyrchus ac yn Gynaliadwy

- Buom ni'n cryfhau ein swyddogaeth a'n capasiti o ran ein Strategaeth Tai, a phenodwyd Pennaeth interim ar gyfer Tai a Chymunedau.
- Rydym wedi gweithio i gryfhau ymateb y cyngor i ddigartrefedd a thai, ac wedi cwblhau, cymeradwyo a dechrau gweithredu'r Cynllun Ailgartrefu Cyflym newydd. Disgwylir i welliannau o'r newidiadau hyn gael eu gwireddu o 2023-24.



Canran yr aelwydydd y llwyddwyd i'w hatal rhag bod yn ddigartref yn 2022-23 oedd 53.72%, oedd yn is na pherfformiad y flwyddyn flaenorol ac o dan ein targed (60% yn y ddau achos

Mesur Cyswllt
â'r Cynllun
Corfforaethol




- Daliwyd ati i weithio trwy ein Partneriaeth Diogelwch Cymunedol i roi sylw i'r problemau a achosir gan alcohol a chyffuriau anghyfreithlon, gan gynnwys ymateb i orddosiau nad ydynt yn angheuol trwy ddarparu ymyriadau cyflym a chymorth, ac ymateb hefyd i gam-drin domestig ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Roedd y gwaith hwn yn cynnwys:

- ↳ Ailosod a chytuno ar flaenoriaethau gwasanaeth newydd ar gyfer 2023-24;
- ↳ Cafodd 1,849 o blant wersi diogelwch cymunedol oed-briodol; cam-drin domestig, seiberdrosedd, trwy waith ein Criw Croch;
- ↳ Mae'r Cynllun Patrôl Pawennau yn dal i fynd o nerth i nerth. Bellach mae 1442 o aelodau wedi ymuno, gyda 163 o aelodau newydd yn 2022-23. Mae sawl budd i'r cynllun hwn, megis math ar fenter 'gwarchod cymdogaeth', ac mae hefyd yn dod â'r gymuned ynghyd, yn bartneriaid a thrigolion, i weithio i wneud ein cymunedau'n lleoedd mwy diogel i fyw;

Gwelwyd gostyngiad yn nifer yr achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol yr adroddwyd amdanynt ar draws y fwrdeistref sirol, o 3,957 (data'r heddlu) yn 2021-22 i 2,278 yn 2022-23. Mae'r gostyngiad hwn yn bennaf yn sgîl y data am dorri rheolau Covid yn 2021-22. Hefyd gostyngodd nifer y bobl oedd yn destun proses rybuddio ynghylch ymddygiad gwrthgymdeithasol o 11 yn 2021-22 i 6 yn 2022-23.

Yn 2022-23 mae canran y bobl sy'n ddiodefwrwr eildro yn debyg i 2021-22 ac yn well na 2020-21, er ei fod yn uwch na'n targed o 31%. Bu cynnydd yn nifer yr achosion o gam-drin domestig ers y pandemig, sydd wedi effeithio ar y ffigurau. Byddwn ni'n parhau i gefnogi'r atgyfeiriadau cynyddol. Er bod mwy o achosion yn cael eu hatgyfeirio, mae'r cyfraddau ymgysylltu lle ceir canlyniadau cadarnhaol yn 68%. Ar ben hynny, llwyddwyd i sicrhau cyllid i'n galluogi i gefnogi 120 o ddiodefwrwr cam-drin domestig risg uchel i wneud eu heiddo'n fwy diogel/sicr a chynnig cymorth cyfannol.

% yr achosion o gam-drin domestig lle mae pobl yn ddiodefwrwr eildro – y Gwasanaeth Cam-drin Domestig Annibynnol (IDVA) – y diodefwrwr risg uchaf



- Dechreuwyd cymryd camau a fydd yn gweithredu ein hymrwymiad i'r siarter creu lle, a chomisiynwyd strategaeth adfywio, i'w pharatoi er mwyn adfywio'r prif drefi a rhai o aneddiadau eilaidd a thrydyddol CNPT. Bydd y strategaeth yn canolbwyntio ar greu mannau cyhoeddus gwell ac o safon, gan gryfhau'r cysylltiadau rhwng pobl a'u lleoedd a gwella'r mannau lle maen nhw'n byw, yn gweithio ac yn chwarae.

Amcan Llesiant 2 – Bod pob Cymuned yn Llewyrchus ac yn Gynaliadwy

- Yn sgîl gweithredu'r Ddeddf Rhentu Cartrefi, gadawodd llawer o landlordiaid y farchnad leol oherwydd y cyfrifoldebau cynyddol arnynt. Mae fforddiadwyedd hefyd wedi bod yn broblem yn yr hinsawdd presennol. Fodd bynnag, rydym wedi cydweithio'n agos â Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (LCCiaid) a landlordiaid preifat i gynyddu nifer yr unedau llety interim a symud ymlaen. Yn ystod 2022-23 fe fuom ni'n prydlesu 39 uned o lety interim ar gyfer aelwydydd digartref, sy'n gynydd ar y 27 uned y buom ni'n eu darparu yn 2021-22. Ar ben hynny, mae sawl datblygiad newydd ar amrywiol gyfnodau cynllunio ac adeiladu er mwyn cyflwyno unedau interim a symud ymlaen ychwanegol.
- Rydym wedi comisiynu ymgynghorwyr i baratoi adroddiad yn amlygu ym mha ffyrdd y gall y Cyngor wella a datblygu gwariant lleol, ochr yn ochr ag ystyried gwahanol ddulliau caffael megis "Model Preston" a chysyniadau Economi Gylchol a Sylfaenol, er mwyn datblygu Strategaeth Gaffael wedi'i theilwra i CNPT, i gefnogi datblygiad cadwyn gyflenwi a chaffael lleol. Ar ben hynny, sicrhawyd cyllid i gyflogi Swyddog Polisi Gwerth Cymdeithasol, i gefnogi datblygiad gweithgareddau sy'n cefnogi creu swyddi lleol, uwchsgilio trigolion, a hyrwyddo cyfleoedd cyflogaeth er mwyn cyflawni ansawdd bywyd gwell a chefnogi twf economaidd. Mae 298 o fusnesau wedi cofrestru gyda CNPT Prynu Lleol.

Mesurau
Cyswllt â'r
Cynllun
Corfforaethol

Roedd gan 98% o aelwydydd fynediad at y rhyngwrdd, gyda chyflymder lawrlwytho o 30Mbit yr eiliad o leiaf yn 2022-23



Yn 2022 cododd cymhareb y mentrau a'r unedau lleol yn CNPT o 0.79 yn 2021 i 0.80 (h.y. roedd 80% o fusnesau yn gweithredu o un safle ac 20% o fwy nag un) yn 2022. Mae hyn yn golygu bod nifer y busnesau sy'n gweithredu o fwy nag un uned wedi gostwng rhyw fymryn.

Roedd 2,810 o ficro-fentrau yn CNPT yn 2022 o gymharu â 2,750 yn 2021. Er bod hyn yn gynydd, mae cyfradd gyffredinol y micro-fusnesau ymhlith yr holl fusnesau wedi gostwng ychydig, tua hanner canradd. Mae'r 87.8% o ficro-fentrau yn fwyafrif o'r holl fusnesau, ac yn gwneud cyfraniad pwysig i'r economi. Mae'r cynnydd bychan yn nifer y busnesau sy'n cyflogi 10 yn gadarnhaol, ac yn arwydd naill ai bod busnes yn tyfu, neu bod buddsoddwyr neu fusnesau newydd mwy o faint yn cael eu denu i CNPT.

Rhagor o waith i'w wneud:

- Roedd un o'n camau gweithredu ar gyfer 2022-23 heb wneud y cynnydd arfaethedig. Sefydlwyd gweithgor i ddatblygu polisi corfforaethol i annog a chefnogi staff y cyngor i wirfoddoli. Cefnogir hyn gan Gyngor Gwasanaeth Gwirfoddol CNPT, gyda'r nod o gyflawni agwedd safonol at reoli gwirfoddolwyr ar draws gwasanaethau. Fodd bynnag, bu peth oedi o ran cynnydd yn ystod 2022-23, ac o ganlyniad mae'r gwaith wedi cael ei gario ymlaen i 2023-24.



Myfyrio ar 2022-2023

Amcan Llesiant 3 - Bod modd i Genedlaethau'r Dyfodol fwynhau ein Hamgylchedd Lleol, ein Diwylliant a'n Treftadaeth

At ei gilydd, gwnaed cynnydd ar weithgareddau sy'n effeithio ar ein hamgylchedd, ein diwylliant a'n treftadaeth, gan i gyllid gael ei gymeradwyo ar gyfer nifer o brosiectau pwysig fel rhan o Gronfa Ffyniant Bro Llywodraeth y Deyrnas Unedig. O gyfanswm o 18 cam gweithredu, mae 15 ar y llwybr cywir, a 3 fymryn oddi ar y trywydd cywir.



Mae nifer y bobl sy'n dweud eu bod yn gallu siarad Cymraeg (3+ oed) wedi codi o 22.8% i 23.4%

Datblygu'r Strategaeth Treftadaeth, y Strategaeth Diwylliant a'r Cynllun Rheoli Cyrchfan



94 O wirfoddolwyr yn gweithio ar amrywiaeth o safleoedd natur sy'n eiddo i gyngor CNPT



Llai o wastraff gweddilliol ('bagiau du') yn cael ei gynhyrchu fesul person.

Mae % y bobl 16+ sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon 3 gwaith neu fwy yr wythnos **wedi codi i 38%** ac mae'r oedolion a fu'n actif am o leiaf 150 munud yn ystod yr wythnos flaenorol **wedi codi i 62%**

28 o sefydliadau wedi'u cefnogi trwy Grantiau Trydydd Sector gwerth cyfanswm o **£528,760**

884 hectar o dir sy'n eiddo i'r cyngor yn cael ei ddefnyddio ar gyfer mannau gwyrdd neu warchodfeydd natur lleol, cynnydd o **64** hectar

Mabwysiadodd y cyngor ddull '**caru gwenyn**' o reoli ein hymylon ffyrdd a'n glaswelltir




buddsoddiad o £2 filiwn mewn asedau amgylcheddol hanesyddol, megis Castell Margam a Gwaith Haearn Mynachlog Nedd



287 hectar a 30 km o dir sy'n eiddo i'r cyngor yn cael ei reoli ar gyfer bioamrywiaeth, cynnydd o 126 hectar a 7km

65% o bobl ar draws CNPT yn mynychu neu'n cymryd rhan mewn gweithgareddau celfyddydau, diwylliant neu dreftadaeth 3 gwaith neu fwy yr wythnos

Sicrhawyd cyllid Ffyniant a Rennir i gyflawni gwerth **£2.5miliwn o waith Treftadaeth, Diwylliant, Twristiaeth a Digwyddiadau**



£17,755,359

yw'r swm a sicrhawyd o Gronfa Ffyniant Bro Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar gyfer Atyniad Ymwelwyr Coridor Treftadaeth Bro Nedd

Amcan Llesiant 3 - Bod modd i Genedlaethau'r Dyfodol fwynhau ein Hamgylchedd Lleol, ein Diwylliant a'n Treftadaeth

Wrth i bobl fynd ati'n rhagweithiol i gadw, gwella a mwynhau ein hamgylchedd naturiol godidog, trysori'r Gymraeg ac ymwneud yn weithredol â threftadaeth chwaraeon, diwylliant a diwydiant cyfoethog yr ardal, fe wnaethom ni ofyn:

Pam mae hyn yn bwysig?

Mae treftadaeth yn rhan annatod o'n diwylliant, ymdeimlad pobl o hunaniaeth ac o berthyn, sydd yn ei dro yn effeithio ar iechyd, llesiant a chynhwysiad cymdeithasol pobl. Mae treftadaeth a diwylliant hefyd yn cyfrannu at yr economi, gan gefnogi cyflogaeth am dâl, helpu i ddenu mewnfuddsoddi a chynhyrchu gwerth trwy weithredu gwirfoddol – rhan o'n agenda ehangach ffurfio lle. Mae'r iaith Gymraeg yn rhan bwysig iawn o'n treftadaeth a'n diwylliant. Rydym yn cefnogi uchelgais Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru, sef miliwn o bobl sy'n gallu mwynhau siarad Cymraeg erbyn 2050. Ac wrth gwrs, ni fu pwysigrwydd diogelu ein hamgylchedd naturiol erioed mor amlwg. Gwnaeth Llywodraeth Cymru ddatganiadau swyddogol ynghylch Argyfwng Hinsawdd yn 2019 ac Argyfwng Byd Natur yn 2021, gan gydnabod arwyddocâd y ddwy her gysylltiedig hyn a'r ffaith bod angen ymateb iddynt ar frys. Mae'r amgylchedd naturiol yn hanfodol i'n cymunedau ac yn darparu ein holl anghenion sylfaenol. Mae'n rhoi ansawdd bywyd gwell i bawb ohonom a chyfleoedd i fwynhau yr awyr agored a harddwch naturiol a threftadaeth Cymru, fel bod pobl yn gallu dewis bod yn fwy actif yn gorfforol. Daw pobl o bell ac agos i brofi ein hamgylchedd, ac mae'n rhan annatod o ddiwylliant Cymru a'i hiaith. Er bod gan yr ardal lawer o gryfderau, mae hefyd yn profi lefelau cymharol uchel o dlodi, amddifadedd, afiechyd ac anabled.

Mae ffocws pendant ar annog pobl o bob oed a chefnidir i fabwysiadu ffordd actif o fyw er mwyn gwella llesiant corfforol ac emosiynol. Mae angen hefyd sicrhau mwy o swyddi o safon yn y diwydiant hamdden a thwristiaeth lleol, a pharhau â'r traddodiad hir o feithrin doniau lleol i lwyddo fel athletwyr o'r radd flaenaf a pherfformio ar lwyfan y byd.

Crynodeb o'r Cynnydd yn ystod 2022-23

At ei gilydd rydym yn cyrchu at y nod o gyflawni'r amcan llesiant hwn yn 2022-2023. Gwnaed cynnydd da o ran cyflawni gweithgareddau sy'n effeithio ar ein hamgylchedd, ein diwylliant a'n treftadaeth, a chymeradwywyd cyllid ar gyfer nifer o brosiectau pwysig fel rhan o Gronfa Ffyniant Bro Llywodraeth y Deyrnas Unedig. Yn ystod 2022-2023 gwelsom gyfnodau datblygu cychwynnol ac ymgynoriadau ein strategaethau diwylliant a threftadaeth allweddol a'n cynllun rheoli cyrchfan. Bydd y dogfennau hyn yn lasbrint i'r dyfodol o ran sut rydym am ddatblygu a meithrin ein sir i ddatlu ein diwylliant a'n treftadaeth, a byddant yn fodd i ni ymgeisio am gyllid a denu buddsoddwyr ac adnoddau. Ymhlith cyflawniadau allweddol eraill y flwyddyn roedd cymeradwyo'r Gronfa Ffyniant a Rennir (SPF) i gychwyn y Gronfa Treftadaeth, Diwylliant a Thwristiaeth, y gall partneriaid sector cyhoeddus, preifat a gwirfoddol gael mynediad iddi, er mwyn cyflawni'r prosiectau a'r mentrau treftadaeth, diwylliant a thwristiaeth sy'n flaenoriaeth ar draws y sir. Gwelwyd cynnydd hefyd yn nifer yr ymwelwyr â'r fwrdeistref yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, ac mae'r niferoedd bellach fymryn o dan y lefelau cyn y pandemig, gyda chynnydd o 1.9% o gymharu â lefelau'r ymwelwyr oedd yn aros yma cyn y pandemig.

Myfyrio ar 2022-2023

Amcan Llesiant 3 - Bod modd i Genedlaethau'r Dyfodol fwynhau ein Hamgylchedd Lleol, ein Diwylliant a'n Treftadaeth

Ym mis Medi 2022, gwnaeth y cyngor ddatganiad ynghylch argyfwng hinsawdd, a galw ar Lywodraeth y Deyrnas Unedig i wneud yr un fath. Trwy wneud hynny, cydnabuwyd bod effeithiau'r newid yn yr hinsawdd eisoes i'w gweld ar draws y byd, gyda chorwyntoedd a thanau gwyllt mwy mynych a dwys, llifogydd sydyn difrifol, a chyfnodau brawychus o sychder. Rhoddodd y gwres digynsail ym mis Gorffennaf 2022 bwysau ychwanegol ar drigolion lleol, ac mae'r stormydd ysgubol wedi arwain at fwy o ffocws rhanbarthol ar waith i'n hamddiffyn rhag y môr. Wrth wneud datganiad ynghylch argyfwng y newid yn yr hinsawdd byddwn yn ceisio edrych ymhellach ar y camau ehangach mae angen i ni eu cymryd i sicrhau bod CNPT yn garbon niwtral erbyn 2030. Bydd y camau hynny'n cael eu cynnwys yn adolygiad ein Cynllun Corfforaethol ar gyfer 2024 ymlaen



Roedd y cyngor yn cydnabod bod effeithiau'r newid yn yr hinsawdd eisoes i'w gweld ar draws y byd. Mae effaith stepyn drws newid hinsawdd yn niweidiol i drigolion CNPT, ac mae'n bryd i ni fynnu newid. Nid dim ond er mwyn ein cenedlaeth ni, ond i'n plant a'n hwyron, a phawb fydd yn dod ar eu hôl. Mae'r cloc yn tician o ran tanwydd ffosil, felly peidiwn â bod yn ffyliaid sy'n aros i eraill weithredu, ond yn hytrach gynllunio a datblygu llwybr adnewyddadwy ar gyfer Castell-nedd Port Talbot.

Ddechrau 2023 agorodd y cyfadeilad hamdden newydd yng nghanol Tref Castell-nedd, yn cynnwys pwll nofio chwe-lôn 25m, gyda phwll cysylltiedig i ddysgwyr, dwy stiwdio ymarfer corff i grwpiau, campfa 100-gorsaf, ystafell ffitrwydd, lle manwerthu, cyfleusterau gofal plant, caffi a llyfrgell fodern. Yn y llyfrgell mae 16 o gyfrifiaduron cyhoeddus, cysylltiad Wi-Fi ym mhob ardal, gan gynnwys argraffu diwifr, llyfrgell benodol i blant, ardal ymchwil i hanes teuluol a chasgliad o astudiaethau lleol, dwy ystafell gyfarfod a chiosgau hunanwasanaeth. Bwriad yr adeilad yw cael effaith fuddiol sylweddol ar ganol y dref, gan gynyddu cynaliadwyedd, bywiogrwydd a nifer y rhai sy'n galw heibio, gan roi hwb sylweddol i iechyd a llesiant. Mae canlyniadau cadarnhaol i'w gweld yng nghyswllt mesurau cysylltiedig â gweithgarwch corfforol, o gymharu â gweddill Cymru, ac mewn perthynas â'r Gymraeg, mae mwy o bobl yn dweud eu bod yn gallu siarad Cymraeg. Bydd rhagor o waith yn digwydd eleni ar y camau gweithredu lle rydym ni wedi llithro fymryn oddi ar y nod. At ei gilydd, bwriad y camau hyn yw hyrwyddo gwaith grwpiau lleol, fel ei fod yn haws i eraill werthfawrogi, deall a mwynhau ein hamgylchedd lleol, ein treftadaeth a'n diwylliant, ac ymwneud ag ymwybyddiaeth o'r newid yn yr hinsawdd a'n cynllun gweithredu ar gyfer datgarboneiddio. Er ein bod wedi cyflawni'r targed o 64% ar gyfer gwastraff a gafodd ei aildefnyddio, ei ailgylchu neu ei gompostio yn 2022-23, mae'r perfformiad o 64.73% yn is na'r flwyddyn flaenorol. Mabwysiadwyd cynllun gweithredu Strategaeth Gwastraff ym mis Ebrill 2023, gyda'r nod o gyflawni'r targed o ailgylchu 70%erbyn 2024/25.

Myfyrio ar 2022-2023

Amcan Llesiant 3 - Bod modd i Genedlaethau'r Dyfodol fwynhau ein Hamgylchedd Lleol, ein Diwylliant a'n Treftadaeth

Cynnydd o ran Camau Gweithredu a Mesurau 2022-2023 ein Cynllun Corfforaethol:

O'r 18 cam gweithredu allweddol y manylwyd arnynt yn y Cynllun Corfforaethol i'w cyflawni yn ystod 2022-2023, roedd 15ar y 'llwybr cywir', a 3 'fymryn oddi' arno. Cysylltwyd mesurau ein Cynllun Corfforaethol â'r camau gweithredu perthnasol isod:

- Cefnogodd cronfa Grantiau Trydydd Sector y cyngor 28 o sefydliadau yn ystod 2022-2023, sef cyfanswm o £528,760. Daliodd llawer o'r sefydliadau gwirfoddol a'r grwpiau cymunedol ymlaen gyda gweithgareddau a roddwyd ar waith yn ystod y pandemig. Yn ystod y flwyddyn agorodd y ffenestr ar gyfer cyllid 2023-2024, gyda nifer digynsail o geisiadau'n dod i law, a chyfanswm y cyllid a gymeradwywyd oedd £692,610, a fydd yn cefnogi 43 o sefydliadau yn ystod y flwyddyn ariannol sy'n dod (2023-2024).
- Roeddem ni'n falch o groesawu Gwobrau Dinasyddion y Maer yn Orendy Margam, yn dathlu llwyddiant gwaith gwirfoddolwyr a grwpiau cymunedol, a chyflawniadau'r rhai sy'n gwneud gwahaniaeth ar draws CNPT. Dyma rai o enillwyr y gwobrau hynny:
 - Amgueddfa Glowyr De Cymru – enillydd y Wobr Amgylchedd a Threftadaeth
 - Carl Bradley's 'Boot Room' – enillydd gwobr y Pencampwr Cymunedol
 - Denise Francis & Afan Arts – enillwyr y Wobr Celfyddydau Perfformio
 - Jeremy Dummer, Tîm Pêl-droed o dan 15 Cwrt HerbertColts – enillydd gwobr Gwirfoddolwr y Flwyddyn
- Yn ystod y flwyddyn, cododd nifer y gwirfoddolwyr i 94 yn gweithio ar amrywiaeth o safleoedd natur ym mherchnogaeth y cyngor ar draws CNPT trwy'r prosiect cysylltu Seilwaith Gwyrdd a Mawndiroedd Coll, a phrosiectau ym Mharc Gwledig Craig Gwladus. Mae prosiect y Mawndiroedd Coll wedi bod yn cynnal sesiynau dysgu yn yr awyr agored, gan alluogi plant lleol i ddysgu am eu hamgylchedd lleol a chael profiad ohoni, dysgu am fawndiroedd, a'r bywyd gwyllt pwysig yn yr ardal. Ar ben hynny, darparwyd sesiynau iechyd a llesiant i deuluoedd yn yr awyr agored, gan annog teuluoedd lleol i fynd allan i'w hamgylchedd a'u hannog i fod yn hyderus wrth chwarae'n naturiol. Mae prosiectau yng Nghraig Gwladus hefyd wedi cefnogi'r ysgolion lleol i ddefnyddio'r Parc ar gyfer dysgu yn yr awyr agored.
- Mae gweithlu mawr y cyngor yn chwarae rhan bwysig dros ben trwy fod yn llysgenhadon i'r fwrdeistref sirol, a chyfrannu at gadwraeth a mwynhad ein hamgylchedd lleol, ein treftadaeth a'n diwylliant. Fel rhan o ddatblygu'r gweithlu a sefydlu staff mae ein tîm hyfforddi a datblygu wedi cynhyrchu llyfryn hyfforddi a pheccyn e-Ddysgu.



Myfyrio ar 2022-2023

Amcan Llesiant 3 - Bod modd i Genedlaethau'r Dyfodol fwynhau ein Hamgylchedd Lleol, ein Diwylliant a'n Treftadaeth

- Datblygwyd Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg (cymeradwywyd ym mis Gorffennaf 2023). Trwy'r strategaeth, dylai ein gwaith mewn ysgolion a meysydd gwaith allweddol eraill sicrhau bod y ffigur hwn yn cynyddu'n gadarnhaol o flwyddyn i flwyddyn. Bydd y strategaeth, a baratowyd wedi ymgynghoriad ar draws y sir a chydweithio agos â chyrrff partner, yn datblygu ymhellach dair thema strategol, sef cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg, cynyddu defnydd o'r Gymraeg a chreu amodau ffafriol ar ei chyfer – o ran seilwaith a chyd-destun.

Mae nifer y bobl (3 oed a throsodd) yn CNPT sy'n dweud eu bod yn gallu siarad Cymraeg wedi codi o 22.8% (31,400 o bobl) i 23.4% (32,300 o bobl) gyda 12% o bobl yn dweud eu bod yn siarad Cymraeg bob dydd, o gymharu â 10.1% yn flaenorol

Mesur Cyswllt
â'r Cynllun
Corfforaethol

- Er mwyn sicrhau bod ein gwaith a'n datblygu yn y fwrdeistref sirol yn cymryd cenedlaethau'r dyfodol i ystyriaeth, mae dyletswydd arnom i gynnal asesiadau effaith wrth ymgymryd â newidiadau i bolisi a gwasanaeth. Yn ystod 2022-2023, derbyniodd 164 o swyddogion a 46 o aelodau Cabinet a Chraffu hyfforddiant.
- Darparwyd cyfleoedd i blant, pobl ifanc a dinasyddion ddysgu am eu hamgylchedd lleol, eu treftadaeth a'u diwylliant, ac roedd hynny'n cynnwys:

↳ Cyflwynwyd 31 o sesiynau ysgol a 31 o sesiynau estyn allan i'r gymuned, gan ddarparu cyfleoedd i ddysgu mwy am hanes a threftadaeth y fwrdeistref sirol, gan gynnwys sesiynau trin a thrafod gwrthrychau ac ymweliadau/teithiau safle i oedolion a phlant (gan gynnwys sgysiau, gweithdai, llyfrgelloedd a sesiynau i glybiau). Llywiwyd y sesiynau ysgol gan fodel cysyniadol CNPT ar gyfer y cwricwlwm, sydd â 'phedwar diben' yn ganolog iddo, ac a fydd yn gofyn bod athrawon yn addysgu mewn ffordd wahanol; mae'n rhoi mwy o hyblygrwydd i ysgolion wrth lunio'u cwricwlwm.

↳ Cynhaliwyd 4 cyfarfod o Rwydwaith Treftadaeth CNPT, yn ogystal â fforymau'r gymdeithas hanes leol. Rydym wedi bod yn falch o lansio Clwb Archaeolegwyr Ifanc CNPT (plant 8-16 oed), a gychwynnodd ym mis Chwefror, gydag 13 o sesiynau'n cael eu cynnal hyd yma, gan gynnwys teithiau a drefnwyd a chloddfa archaeolegol gydag Ymddiriedolaeth Archaeolegol Morgannwg Gwent.

- Rydym ni'n parhau i yrru gweithrediad Cynllun Bioamrywiaeth y cyngor yn ei flaen – darparwyd hyfforddiant Doeth am Fyd Natur i staff a pheirianwyr Parc Margam, yn ogystal â hyfforddiant ar fioamrywiaeth i'r aelodau. Mabwysiadodd y cyngor ddull 'caru gwenyn' o reoli ymylon ffyrdd a glaswelltir, sydd wedi golygu bod modd i rywogaethau blodau gwyllt gynyddu, a hefyd y pryfed, megis gwenyn, sy'n eu peillio, gan gefnogi Cynllun Dyletswydd Bioamrywiaeth y Cyngor a Chynllun Gweithredu Adfer Byd Natur CNPT. Mae'r cynllun caru gwenyn yn dal i gyflawni deilliannau allweddol i'r Cynllun, ac mae safleoedd ychwanegol yn cael eu cynnwys yn barhaus

Cynyddwyd swm y tir o eiddo'r cyngor (neu dan reolaeth y cyngor) a ddefnyddiwyd yn fannau gwyrdd a gwarchodfeydd natur lleol, o 820 hectar yn 2021-22 i 884 hectar yn 2022-23.

Mesur Cyswllt
â'r Cynllun
Corfforaethol

Myfyrio ar 2022-2023

Amcan Llesiant 3 - Bod modd i Genedlaethau'r Dyfodol fwynhau ein Hamgylchedd Lleol, ein Diwylliant a'n Treftadaeth

- Mae adroddiad Cyflwr Byd Natur CNPT wedi cael ei gyhoeddi ac mae ar gael ar-lein. Mae Partneriaeth Natur CNPT yn dal i gyfarfod bod 2 fis gydag is-grŵp NPT4Nature, a sefydlwyd yn gynnar yn 2022, ac sy'n cwrdd bob chwarter i roi grwpiau cymunedol mewn cysylltiad â chyfleoedd i gael mynediad at arbenigedd a thrafod syniadau.

Mesur Cyswllt â'r Cynllun Corfforaethol


Cynyddwyd swm y tir ym mherchnogaeth y cyngor (neu dan reolaeth y cyngor) sy'n cael ei ddiogelu trwy ddynodiad a/neu sy'n destun rheolaeth briodol ar gyfer cadwraeth natur, fel y nodwyd mewn cynllun rheoli cymeradwy o 160.8 hectar a 23.12Km yn 2021-22 i 287 hectar a 30Km yn 2022-23.

- Mae datblygu strategol wedi gwneud cynnydd da i baratoi'r strategaeth diwylliant, y strategaeth treftadaeth a'r cynllun rheoli cyrchfan – a gymeradwywyd gan y Cabinet ym mis Medi 2023. Mae'r strategaethau wedi'u strwythuro o amgylch cyfres o themâu strategol ac yn cael eu cefnogi gan gynllun gweithredu o brosiectau a mentrau a flaenoriaethwyd sy'n cefnogi'r nodau cyffredinol. Y cyfeiriad strategol yw creu CNPT lle mae pawb yn cael cyfle cyfartal i gyfranogi yn niwylliant cyfoethog y fwrdeistref; bod yn iachach, yn hapusach, yn fwy diogel a mwy llewyrchus, gydag ymdeimlad o berthyn, dinasyddiaeth a lle. Ar ben hynny, rydym ni'n gweithio mewn partneriaeth â Chyfoeth Naturiol Cymru i lunio prif gynllun Parc Coedwig Afan, a fydd yn llywio buddsoddiad mewn seilwaith ymwelwyr ar draws y cyrchfan yn ystod y blynyddoedd sy'n dod.

Dengys data Arolwg Cenedlaethol Cymru 2022-23 fod 65% o'r bobl o CNPT yn yr arolwg wedi mynychu neu gyfranogi mewn gweithgareddau celfyddydau, diwylliant neu dreftadaeth 3 gwaith neu fwy yr wythnos. Mae hyn yn golygu bod CNPT yn rhannu'r 9fed safle o blith y 22 cyngor ar draws Cymru.

Mesur Cyswllt â'r Cynllun Corfforaethol

Mae nifer yr ymwelwyr wedi cynyddu'n sylweddol yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, a bellach fymryn yn unig o dan y lefelau cyn y pandemig.



Mae nifer yr ymwelwyr a nodir yma yn cynnwys ymwelwyr sy'n aros ac ymwelwyr dydd.

Mae'r data yma'n deillio o'r model STEAM sy'n mesur effaith economaidd twristiaeth, yn sgîl ymwelwyr sy'n aros a rhai dydd, trwy ddadansoddi a defnyddio amrywiaeth o fewnbynnau sy'n cynnwys nifer yr atyniadau i ymwelwyr, y stoc o welyau mewn llety i dwristiaid, presenoldeb mewn digwyddiadau, lefelau llenwi, tariffau llety, lefelau gwariant ymwelwyr etc.

Mae nifer yr ymwelwyr bron wedi cyrraedd yn ôl at y lefelau cyn y pandemig, sef 1,539,000 yn achos blwyddyn galendr 2019. Mae CNPT wedi gweld cynnydd addawol o 1.9% yn yr ymwelwyr sy'n aros, o gymharu â 2019, sef un o amcanion allweddol ein Cynllun Rheoli Cyrchfan a'n gweithgarwch Marchnata Cyrchfan, gan fod ymwelwyr sy'n aros yn gwario dros 15 gwaith yn fwy yn yr economi leol nag ymwelwyr dydd.

- Roeddem ar y llwybr cywir i gyflawni ein rhaglen arfaethedig o brosiectau a newidiadau gwasanaeth er mwyn gwella mynediad at chwaraeon, hamdden, diwylliant a threftadaeth yn lleol; a chyflawni prosiectau a gynlluniwyd i ddiogelu ein hamgylchedd lleol.
- Daliwyd ati gyda'r gwaith paratoi yn dilyn y penderfyniad i ddod â gwasanaethau hamdden yn ôl o dan reolaeth uniongyrchol y cyngor, gan gynnwys sefydlu bwrdd prosiect.

Myfyrio ar 2022-2023

Amcan Llesiant 3 - Bod modd i Genedlaethau'r Dyfodol fwynhau ein Hamgylchedd Lleol, ein Diwylliant a'n Treftadaeth

- Daliwyd ati i geisio cyfleoedd cyllid allanol i gadw a gwella'r amgylchedd lleol, diwylliant a threftadaeth, oedd yn cynnwys:

- Ym hllith y prosiectau arian grant a gyflawnwyd mae'r Prosiect Mawndiroedd Coll – Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol, Prosiect Cysylltu Seilwaith Gwyrdd – Cronfa Galluogi Adnoddau Naturiol a Llesiant (LIC/UE), amrywiol brosiectau natur yn cynnwys Cerrig Camu – Lleoedd Lleol i Natur LIC, Craig Gwladus – Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol; astudiaeth achos y Gwasanaeth Natur Cenedlaethol, Capasiti Cymunedau Arfordirol, a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru. Sicrhawyd cyllid pellach gan LIC/NHLF ar gyfer seilwaith gwyrdd.
- Sicrhawyd £17.7 miliwn trwy Gronfa Ffyniant Bro (LUF) y Deyrnas Unedig i gyflwyno Prosiect Denu Ymwelwyr Coridor Treftadaeth Bro Nedd.
- Sicrhawyd cyllid Ffyniant a Rennir i gyflwyno cronfa £2.5miliwn ar gyfer Treftadaeth, Diwylliant, Twristiaeth a Digwyddiadau rhwng 2023 a 2025. Mae'r sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol yn gymwys i ymgeisio am hyn.
- Buddsoddwyd £2 filiwn mewn asedau amgylcheddol hanesyddol, yn cynnwys Castell Margam, Gwaith Haearn Mynachlog Nedd, a'n Parciau a Gerddi cofrestredig, sef Parc Jersey a Pharc Talbot.

Mesur Cyswllt â'r Cynllun Corfforaethol

Cyfanswm gwerth y cyllid a sicrhawyd i wella safon y profiad i ymwelwyr

Mae data Arolwg Cenedlaethol Cymru 2022-23 yn dangos bod 62% o oedolion CNPT yn yr arolwg yn actif am o leiaf 150 o funudau yn yr wythnos flaenorol. Mae hyn wedi codi o'r flwyddyn flaenorol ac yn rhoi CNPT yn safle 6 ar draws Cymru.

Mae data Arolwg Cenedlaethol Cymru 2022-23 yn dangos bod 38% o'r bobl (16+) o CNPT yn yr arolwg yn cymryd rhan mewn chwaraeon 3 gwaith neu fwy bob wythnos. Mae hyn wedi codi o 34% yn y flwyddyn flaenorol, ac yn golygu bod CNPT yn rhannu safle 12 ar draws Cymru,

Canfu'r Arolwg Chwaraeon Ysgol, arolwg cenedlaethol o ddisgyblion o fl. 3-11, fod 46% (data 2021-22) o ddisgyblion yn cymryd rhan mewn chwaraeon 3 gwaith neu fwy bob wythnos (dwlu ar chwaraeon). Mae hyn yn uwch na chyfartaledd Cymru, sef 39.5%, a dyma'r gyfradd uchaf ymhlith y 22 cyngor yng Nghymru.

Mesurau Cyswllt â'r Cynllun Corfforaethol

Nid yw wybodaeth ddiweddaraf ar gael ynghylch % y myfyrwyr (16-19 oed) sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon o leiaf 3 gwaith yr wythnos.

Mae swm y tir ym mherchnogaeth y cyngor (neu dan ei reolaeth) a ddynodwyd neu sy'n bodloni'r meini prawf i'w ddynodi'n Safle Pwysig ar gyfer Cadwraeth (SINCs) wedi codi i 785ha o 782ha yn 2021- 2022.

Myfyrio ar 2022-2023

Amcan Llesiant 3 - Bod modd i Genedlaethau'r Dyfodol fwynhau ein Hamgylchedd Lleol, ein Diwylliant a'n Treftadaeth



- Dechreuwyd gweithio i bennu cyfeiriad newydd strategol ar gyfer hamdden, fel rhan o'r strategaeth diwylliant.
- Daliwyd ati i gryfhau trefniadau cynllunio a phartneriaeth, ac mae partneriaethau newydd yn cael eu datblygu er mwyn rhoi mwy o bwys ar ddiogelu a gwella'r amgylchedd lleol, treftadaeth a diwylliant. Hefyd mae proses Cynllun Rheoli Cyrchfan CNPT wedi darparu ymgynghori pellach i lywio Prif Gynllun Parc Coedwig Afan, sy'n cael ei gynhyrchu mewn partneriaeth â CNC (Cyfoeth Naturiol Cymru).

Buddsoddwyd £2m yn 2022-23 mewn diogelu asedau amgylcheddol hanesyddol

Mesur Cyswllt
â'r Cynllun
Corfforaethol

Mae canran yr asedau amgylcheddol hanesyddol dynodedig sydd mewn cyflwr sefydlog neu well wedi codi o 64% yn 2021-22 i 65% (259 o 399) yn 2022-23.

Rhagor o waith i'w wneud.

Aseswyd bod tri cham gweithredu fymryn oddi ar y targed ar gyfer 2022-23, sef:

- Mae gwaith yn mynd rhagddo'n dda i gyflwyno Fframwaith Strategol ar gyfer Cyfathrebu a Marchnata, a fydd yn hyrwyddo gwaith grwpiau lleol, fel bod eraill yn gallu gwerthfawrogi, deall a mwynhau ein hamgylchedd lleol a'n treftadaeth yn haws.
- Mae rhagor o waith i'w wneud i gynyddu ymgysylltiad y gweithlu a dinasyddion ag agenda'r newid yn yr hinsawdd, fodd bynnag, mae amrywiaeth o ddiwyddiadau ymwybyddiaeth sy'n ymwneud â phrosiect y Mawndiroedd Coll a'r prosiect Seilwaith Gwyrdd yn cynnwys negeseuon ynghylch y newid yn yr hinsawdd.
- Mae gwaith yn parhau i ddatblygu Strategaeth a Chynllun Gweithredu'r cyngor ar gyfer Sero Net 2030 (cynllun â chostau) a fydd yn cefnogi'r Strategaeth ddiwygiedig DARE (Datgarboneiddio ac Ynni Adnewyddadwy). Mae'r Strategaeth DARE i gael ei diweddarau yn ail chwarter 2023, ac mae'r rhaglenni gwelliant canlynol yn cael eu datblygu a/neu eu diweddarau ar hyn o bryd:

- ↳ Rhaglen Solar PV
- ↳ Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif – rhaglen adeilad newydd sero net
- ↳ Ymarferiad Ymgysylltu ag Ynni a Rheoli Carbon – adeiladau gweithredol
- ↳ Cerbydlu – rhaglen pontio i drydan



Myfyrio ar 2022-2023

Amcan Llesiant 3 - Bod modd i Genedlaethau'r Dyfodol fwynhau ein Hamgylchedd Lleol, ein Diwylliant a'n Treftadaeth

Mesur Cyswllt â'r Cynllun Corfforaethol




Mae nifer yr achosion o fynd dros y trothwy PM10 yn yr ARhAA (Port Talbot / Taibach) wedi codi fymryn o 27 i 30 yn ystod y 12 mis diwethaf, ond mae'n dal o fewn y targed statudol o 35.




Mesur Cyswllt â'r Cynllun Corfforaethol



Er ein bod wedi cyrraedd y targed o 64% ar gyfer gwastraff i'w aildddefnyddio, ei ailgylchu neu ei gompostio yn 2022-23, mae 64.73% yn berfformiad is na'r flwyddyn flaenorol. Mabwysiadwyd cynllun gweithredu i'r Strategaeth Gwastraff ym mis Ebrill 2023, gyda'r nod o gyflawni'r targed ailgylchu o 70% erbyn 2024-25.



Mae swm y gwastraff gweddilliol a gynhyrchir fesul person yn parhau i ostwng, yn 2022-2023 pwysau'r swm ar hyn o bryd yw 195.56 cilogram.



Myfyrio ar 2022-2023

Amcan Llesiant 4 - Swyddi a Sgiliau

Roeddem ar y llwybr cywir i gyflawni'r hyn roeddem wedi bwriadu ei wneud yn 2022-23 yn achos yr amcan llesiant hwn. Gwnaed cynnydd sylweddol o ran yr agenda swyddi a sgiliau yn ystod y 12 mis diwethaf. O'r 22 cam gweithredu allweddol roeddem wedi bwriadu eu cyflawni yn ystod y flwyddyn, roedd 21 yn cyrraedd y nod, ac un heb wneud hynny.


£32,660,854

wedi'i sicrhau trwy Gronfa Ffyniant a Rennir Llywodraeth y Deyrnas Unedig a rhaglen Multipty.



309 o swyddi wedi'u creu neu eu diogelu o ganlyniad i gefnogaeth ariannol yr awdurdod lleol

Cefnogwyd dros 800 o unigolion i gael hyfforddiant, profiad gwaith neu gyflogaeth



Codwyd nifer y prentisiaethau gyda'r cyngor o **78 to 110**


515 o ymholiadau busnes yn arwain at roi cyngor, gwybodaeth neu gefnogaeth ariannol i gwmnïau presennol

Gweithiwyd gyda chyflogwyr lleol i gyflwyno **1,867** o wythnosau hyfforddi ar ffurf **prentisiaethau, cyfnodau hyfforddiant a phrofiad gwaith** gyda chwmnïau



Cyrchwyd £47.7m o grant Bargen Ddinesig Llywodraeth y DU ar gyfer y Rhaglen Cefnogi Arloesedd a Thwf Carbon Isel a £15m ar gyfer y Rhaglen Cartrefi sy'n Bwerdai.

Cymorth i **233** busnes gydag ymholiadau cychwyn



Lansiwyd gwefan 'Buddsoddi yn CNPT' i sicrhau bod cyfleoedd busnes yn CNPT yn cael lle canolog yng Nghymru



Dechreuwyd aildefnyddio **97** o eiddo problematig hirdymor



Agorodd hwn yng Nghanolfan Siopa Aberafan i roi cyngor, cymortha hyfforddiant cyflogaeth

Amcan Llesiant 4 - Swyddi a Sgiliau

Fel rhan o'n Cynllun Corfforaethol 2022-2027 nodwyd sut rydym ni'n bwriadu gweithio gyda'n partneriaid i greu amodau ar gyfer mwy o waith sicr, gwyrdd am gyflog da yn yr ardal, a chefnogi pobl leol i gael y swyddi hynny. Gofynnwyd:

Pam mae hyn yn bwysig?

Mae byd gwaith yn newid yn gyflym, ac yn cael ei aflonyddu gan y ffrwydriad yng nghynnydd technoleg ddigidol a hefyd yn awr gan yr ymateb i argyfwng yr hinsawdd; mae Covid-19 wedi creu sioc economaidd ar draws yr economi.

Mae hyn wedi effeithio ar fusnesau mewn ffyrdd gwahanol iawn; mae gan CNPT sylfaen ddiwydiannol drawiadol, sy'n cynnwys cynhyrchydd dur mwyaf y Deyrnas Unedig ac ystod eang o weithgynhyrchwyr BBaCh; mae gan CNPT nifer o safleoedd cyflogaeth strategol, ac mae llawer o gyfleoedd ar gyfer twf economaidd, gan gynnwys swyddi newydd gwyrdd wrth i ddiwydiant a chymdeithas ddatgarboneiddio; mae gan yr ardal wasanaeth da o ran ffyrdd a rheilffyrdd, ac mae'r porthladd dŵr dwfn yn ased strategol; Mae'r economi leol yn dibynnu i raddau helaeth ar weithgareddau nifer bach o ddiwydiannau allweddol; mae 88% o'r busnesau lleol yn cyflogi llai na 10 o weithwyr; mae cyfraddau busnesau newydd a goroesiad busnesau yn debyg i gyfartaledd Cymru; Mae niferoedd sylweddol o bobl yn cymudo i'r fwrdeistref sirol – o bosib oherwydd safon uchel y swyddi; mae hefyd nifer sylweddol o bobl yn cymudo allan o'r fwrdeistref sirol i swyddi mwy cymedrol eu gwerth.

Crynodeb o Gynnydd yn ystod 2022-23

Cyflawnwyd cynnydd sylweddol o ran yr agenda swyddi a sgiliau yn ystod y 12 mis diwethaf. At ei gilydd rydym ar y llwybr cywir i gyflawni'r amcan llesiant hwn ar gyfer 2022-2023.

Fel rhan o'n hymrwymiad parhaus i adfywio cymunedau ein cymoedd, daliwyd ati i wneud cynnydd ar y Ganolfan Fyd-eang Rhagoriaeth Rheilffyrdd (GCRE), sy'n derbyn cyllid o £250m gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y Deyrnas Unedig, yn ystod y flwyddyn.

Mae'r cyfleuster 550 hectar, ar safle gwaith glo brig Nant Helen gynt a Golchfa'r Onllwyn yn CNPT, yn ymestyn i mewn i sir gymdogol Powys, ac bydd yn cynnwys dau lŵp profi, y naill yn drac 6.9km wedi'i drydaneiddio ar gyfer rholstoc cyflym, gydag uchafswm cyflymdra o 177km/h, a'r llall yn drac profi 4km 65km/h. Bydd y cyfleusterau eraill ar y safle yn cynnwys amgylchedd profi dau blatfform, cyfleusterau storio a chynnal a chadw rholstoc, swyddfeydd rheoli a gweithrediadau, llety i'r staff a chysylltiadau â'r brif lein gerllaw.

Bydd y prosiect trawsffurfiannol hwn yn creu mwy o swyddi o safon, ac mae'n debygol o fod yn gatalydd ar gyfer rhagor o gyfleoedd newydd a buddsoddiad yn ein cymunedau. Bydd yn rhoi'r rhan hon o Gymru ar y map fel cyrchfan o ddewis i weithgynhyrchwyr trenau, gweithredwyr rhwydwaith, y diwydiant ehangach ac academyddion yn y Deyrnas Unedig ac yn rhyngwladol, er mwyn ymchwilio, profi a datblygu'r technolegau diweddaraf mewn trafndiaeth werdd ar gyfer y diwydiant rheilffyrdd byd-eang.

Ar ochr arall y fwrdeistref sirol, eto yn un o gymunedau'r cymoedd sydd eisoes yn enwog am ei lwybrau beicio mynydd, bydd Cwm Afan yn dod yn gartref i Ganolfan Antur Wildfox. Mae'r buddsoddiad anhygoel hwn, sy'n werth £250m, yn cynnwys gwesty 50 gwely, sba, bwyty, golygfan, 570 o gabanau a llwybrau beicio a cherdded.

Hon fydd y gyntaf o gyfres o ganolfannau newydd Wildfox ar draws y Deyrnas Unedig, a phan fydd wedi'i chwblhau, gallai greu hyd at 1,000 o swyddi yn ogystal â'r nifer fawr o swyddi arfaethedig yn ystod y cyfnod adeiladu.

Amcan Llesiant 4 - Swyddi a Sgiliau

Bydd y 132 erw o dir ym Mhen y Bryn, ger Croeserw a'r Cymer, yn cynnig manteision economaidd sylweddol i'r ardal, ac ni fyddent yn cael effaith annerbyniol ar amwynder gweledol a chymeriad yr ardal yn gyffredinol, diogelwch priffyrdd a cherddwyr, amwynder preswyl, llygredd a bioamrywiaeth.

Yn ogystal â'r uchod, parhaodd ein llwyddiannau yn ystod 2022-23, gan gynnwys cynnydd parhaus gyda'n prosiectau Bargaen Ddinesig; daeth ein rhaglenni cyflogadwyedd at ei gilydd, gan gefnogi 2,839 ac agor yr Hwb Cyfleoedd yng Nghanolfan Siopa Aberafan, sy'n darparu cymorth, cyngor a hyfforddiant cyflogaeth.

Cafodd 309 o swyddi eu creu a/neu eu diogelu o ganlyniad i gefnogaeth ariannol yr awdurdod lleol; cynyddwyd nifer prentisiaethau'r cyngor o 78 i 110; daliwyd i gefnogi busnesau lleol a busnesau newydd; ailddechreuwyd defnyddio 97 o eiddo problematig hirdymor, a hefyd sicrhawyd £1.25 miliwn o gyllid gan LLC i symud ymlaen ymhellach gyda gwaith i ddarparu Hwb Trafnidiaeth Integredig yng Ngorsaf Reilffordd Castell-nedd.

Yr un cam gweithredu oedd heb ddilyn y llwybr cywir yn 2022-23 oedd gweithio mewn partneriaeth â Thrafnidiaeth Cymru i archwilio dichonoldeb cyflwyno peilot i'r gwasanaeth bws Fflecsi ym mhen uchaf Cwm Afan. Mae hynny wedi oedi dros dro am resymau ariannol.

Cynnydd o ran Camau Gweithredu a Mesurau 2022-2023 ein Cynllun Corfforaethol:

O'r 22 cam gweithredu allweddol y manylwyd arnynt yn y Cynllun Corfforaethol i'w cyflawni yn ystod 2022- 2023, roedd 21 ar y llwybr cywir, ac 1 heb fod yn y lle cywir.

Cysylltwyd mesurau ein Cynllun Corfforaethol â'r camau gweithredu perthnasol isod:

- Daliwyd ati i gefnogi a gweithio gyda datblygwyr i gyflawni'r Ganolfan Fyd-eang Rhagoriaeth Rheilffyrdd a Chyrchfan Wildfox
- Adolygwyd yr hyfforddiant rydym ni'n ei gynnig i helpu pobl i addasu i'r newid yn y farchnad lafur, a chyflwynwyd ystod sylweddol o gefnogaeth hyfforddi a chyfleoedd. Cafodd unigolion eu cefnogi hefyd i ddatblygu CVs a pharatoi ar gyfer cyfweiliadau swyddi. Dyma rai o'r cyfleoedd hyfforddi:

- ↳ Cefnogodd Cymunedau dros Waith a Chymunedau dros Waith a Mwy 132 o bobl i gael hyfforddiant;
- ↳ Trefnodd Gweithffyrdd+ 143 o leoedd hyfforddi ar gyrsiau;
- ↳ Bu ein tîm Datblygu Economaidd yn gweithio gyda chyflogwyr i gefnogi unigolion i gwblhau 1,867 o wythnosau o hyfforddiant ar ffurf prentisiaethau, cyfnodau hyfforddeion a phrofiad gwaith;
- ↳ Bu cydweithio agos â phobl o Wcráin a gafodd eu lletya yn CNPT, ac rydym wedi darparu sesiynau hyfforddi i greu cysylltiadau a meithrin perthnasoedd.
- ↳ Dyfarnwyd contract Twf Swyddi Cymru+ i'r Uned Sgiliau a Hyfforddiant. Cychwynnodd 124 o ddysgwyr ar y rhaglen (gan gynnwys 34 o ddysgwyr oedd yn trosglwyddo o fod yn Hyfforddeion). Aeth 79% (90) o'r dysgwyr hyn ymlaen i gyflogaeth/ddysgu pellach erbyn 31 Mawrth 23;
- ↳ Mae Dysgu i Oedolion yn gweithio mewn partneriaeth â'r gwasanaethau cefnogi i uwchsgilio unigolion yn barod ar gyfer cyflogaeth, a chyflwyno ein rhaglen cyflogadwyedd, gan weithio ar hyn o bryd gydag 8 ysgol cynradd, ac ymgysylltu â 58 o rieni/deuluoedd.

Myfyrio ar 2022-2023

Amcan Llesiant 4 - Swyddi a Sgiliau

- Bu'r Tîm Datblygu Dysgu a Hyfforddiant yn cyflwyno a/neu'n cefnogi ystod o gyrsiau hyfforddi, a chwblhaodd 20,644 o fynychwyr gyrsiau yn ystod 2022-23. Rhestrir rhai o'r deilliannau isod:
 - Daliwyd ati i ddatblygu llwybrau clir ar gyfer pobl leol oedd â diddordeb mewn gweithio yn y cyngor, ac yn ystod 2022-23 roedd 110 o gyflogeion y cyngor ar gynlluniau prentisiaeth ffurfiol cydnabyddedig – cynnydd o gymharu â ffigur y flwyddyn flaenorol, sef 78, a chyflawnodd 22 o gyflogeion eu prentisiaethau yn ystod y flwyddyn. Hefyd cefnogwyd 17 o leoliadau profiad gwaith gyda'r cyngor i ddisgyblion ar draws ystod o wasanaethau, a chyflawnodd 77 o gyflogeion gymwysterau arwain a rheoli. Darparwyd cyfleoedd pellach, sgiliau a hyfforddiant hefyd trwy'r cynlluniau cyflogadwyedd.
 - Datblygwyd rhaglen newydd i annog ymadawyr addysg uwchradd a thrydyddol i weithio yn y Sector Iechyd a Gofal Cymdeithasol, ac annog mwy o wybodaeth a dealltwriaeth o'r rolau ym maes gofal cymdeithasol. Y cyfnod cychwynol oedd carfannau Iechyd a Gofal Cymdeithasol peilot mewn 4 ysgol uwchradd yn CNPT a 2 goleg trydyddol (Gŵyr / Grŵp CCNPT). Mae'r rhaglen yn cynnwys cynnig cyfleoedd i fyfyrwyr gael profiad o effeithiau dementia, golwg gwan neu broblemau difrifol gyda'r clyw. Roedd hefyd yn cynnwys taith o amgylch y Bws Dementia, rhwystrau golwg a chlyw a deunyddiau i gefnogi'r gwersi. Cwblhaodd cyfanswm o 223 o staff a disgyblion y profiad. Yn ystod 2022-23, cwblhawyd 86 o gymwysterau Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar draws y cyngor. Hefyd cefnogwyd 47 o leoedd i fyfyrwyr gradd gwaith cymdeithasol a chwblhawyd 31 o gymwysterau gwaith cymdeithasol.
- Daeth ein rhaglenni Cyflogadwyedd CNPT ynghyd a chreu proses atgyfeirio brysbennu gynhwysol, lle gallai asiantaethau allanol atgyfeirio i un pwynt cyswllt. Sicrhawyd ein bod yn darparu gwasanaeth cefnogi cyflogaeth wedi'i bersonoli, sy'n diwallu anghenion y cyfranogwr sy'n barod i weithio, a'r rhai y mae rhwystrau cymhleth yn eu hatal rhag mynd i'r farchnad swyddi.
- Cefnogodd Cyflogadwyedd CNPT 2,839 o atgyfeiriadau yn ystod 2022-23 a chefnogwyd 848 o bobl 16+ i gael hyfforddiant, gwirfoddoli, profiad gwaith, cyflogaeth gynaliadwy, yn ogystal â chefnogi'r rhai sy'n wynebu 'tloidi mewn gwaith'. Ymhlith yr atgyfeiriadau roedd Gweithffyrdd+, CFW, CFW+, Byddin yr Iachawdwriaeth, Prime Cymru, Gyrfa Cymru, Swansea Working, Employability Bridgend, ein Gwasanaeth Ieuencid, CyfleCymru, i enwi rhai yn unig.
- Hefyd, fel rhan o raglen Gyflogadwyedd CNPT, agorodd Hwb ym mis Rhagfyr 2022 yng Nghanolfan Siopa Aberafan, wedi'i ariannu gan Cymunedau dros Waith a Mwy. Mae'r Hwb yma yn cefnogi trigolion â chyflogaeth, cyfleoedd i wirfoddoli a hyfforddiant. Mae'n cael ei alw'n "Hwb Cyfleoedd", lle rydym hefyd yn darparu Gofod Hwb Cynnes, a gallwn ddod â'r timau ynghyd i drefnu ffeiriau recriwtio bychain ym meysydd Adeiladu, Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Diogelwch.
- Buom ni'n gweithio gyda chyflogwyr lleol, ysgolion a cholegau i gynyddu nifer y cyfleoedd prentisiaeth o safon, a sicrhau bod y cyfleoedd hynny'n ddeniadol i'r rhai sy'n chwilio am waith. Bu ein tîm Datblygu Economaidd yn gweithio gyda chyflogwyr lleol i gefnogi unigolion i gwblhau 1,867 o wythnosau o hyfforddiant ar ffurf prentisiaethau, cyfnodau hyfforddeion, a phrofiad gwaith. Cefnogwyd nifer o gynlluniau prentisiaeth trwy gynlluniau cyflogadwyedd yr Uned Sgiliau a Hyfforddiant yn y Gyfarwyddiaeth Addysg a'n Tîm Dysgu, Hyfforddi a Datblygu Corfforaethol.

Myfyrio ar 2022-2023

Amcan Llesiant 4 - Swyddi Sgiliau

Wrth gefnogi ein hymrwymiad i ddatgarboneiddio, ym mis Mawrth 2023, cawsom gadarnhad bod ein cynnig am **Borthladd Rhydd Celtaidd yn llwyddiannus**. Bydd y cyfle hwn yn gatalydd i'n rhoi ar y blaen yn chwyldro ynni gwyrdd y byd. Yn fuan bydd ein trigolion yn gweithio yn niwydiant y dyfodol, yn dysgu'r sgiliau er mwyn sicrhau swyddi gwyrdd, am gyflog da. Mae Consortiwm y Porthladd Rhydd Celtaidd yn cynnwys Associated British Ports(ABP), Cyngor CNPT, Cyngor Sir Penfro a Phorthladd Aberdaugleddau

Cyflymu Economi Werdd Cymru



Mae safleoedd treth a thollau'r cynnig, a leolir yn strategol, yn cwmpasu bron 250 o hectarau yn Sir Benfro a CNPT, **a byddant yn cyflwyno llwybr carlam ar gyfer economi sero net Cymru, gan greu dros 16,000 o swyddi newydd, gwyrdd, a chyfleoedd sgiliau ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol**. O weldwyr i wyddonwyr data, bydd y rhain yn rolau hirdymor am gyflog da, a seiliwyd ar arferion gwaith teg a gweithleoedd cynhwysol.

“Mae'r newyddion gwych yma'n gam cyntaf at ddyfodol llawer mwy disglair yma yn ein bwrdeistref sirol. Rwy'n edrych ymlaen at weithio gyda'n partneriaid i sicrhau bod pobl a busnesau lleol yn cael y budd mwyaf posibl o'r hyn sydd bellach o'n blaenau.”

Karen Jones,
Prif Weiethredwr Cyngor CNPT



Myfyrio ar 2022-2023

Amcan Llesiant 4 - Swyddi a Sgiliau

- Cwblhaodd ein swyddogion Datblygu Economaidd ac Addysg archwiliad i ganfod gofynion gwaith cyflogwyr lleol i'r dyfodol ac unrhyw ddiffygion yn y ddarpariaeth ddysgu leol. Bydd y canfyddiadau'n llywio Strategaeth Cyflogadwyedd a Sgiliau CNPT, sy'n cael ei datblygu gyda phartneriaid allweddol mewnol ac allanol, er mwyn cyflwyno Cynllun Cyflogaeth a Sgiliau hirdymor i CNPT.
- Cryfhawyd tîm Cymorth Busnes y cyngor i helpu busnesau lleol i recriwtio pobl fedrus ac i helpu darparwyr dysgu lleol. Trwy brosiect Angori'r Gronfa Ffyniant a Rennir (SPF) mae'r tîm wedi creu 7 swydd newydd ac mae 4 swydd oedd eisoes yn bodoli wedi cael eu gwella er mwyn derbyn cyfrifoldebau ychwanegol.
- Datblygwyd Cynllun Buddsoddi Lleol CNPT a bu'n destun ymgynghori gyda rhanddeiliaid mewnol ac allanol, ac yn llywio'r Cynllun Buddsoddi Rhanbarthol ar gyfer y Gronfa Ffyniant a Rennir. Cytunodd y Cabinet ar y Cynllun Buddsoddi Rhanbarthol ar 28 Gorffennaf 2022, ac wedi hynny fe'i cymeradwywyd gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig ym mis Rhagfyr 2022:
 - ↳ Cymeradwywyd pum prosiect angori strategol i gyflawni prif flaenoriaethau'r Cynllun Buddsoddi, gan ymdrin â heriau a chyfleoedd y fwrdeistref sirol: 1.Lle, 2.Cymoedd a Phentrefi, 3.Cymunedau Cynaliadwy, 4.Cymorth Busnes Gwell ar gyfer Twf a 5. Arloesedd, Cyflogadwyedd
 - ↳ Datblygwyd pum cynllun grant UKSPG i ymdrin â'r heriau a'r cyfleoedd a nodwyd yn y Cynllun Buddsoddi, heb ddyblygu'r prosiectau angori: 1. Cronfa Treftdaeth, Diwylliant, Twristiaeth a Digwyddiadau, 2. Cronfa Twf Cymunedau Cynaliadwy, 3. Cronfa Ffyniant Cymoedd a Phentrefi, 4. Grantiau Buddsoddiad Busnes a 5. Cronfa Twf y Trydydd Sector
- Sefydlwyd mecanweithiau i roi'r camau a nodwyd yn y Cynllun Datblygu Economaidd Lleol ar waith.
- Ym mis Chwefror 2023 lansiodd gwefan 'Buddsoddi yn CNPT' i sicrhau bod cyfleoedd busnes yn CNPT yn cael lle canolog yng Nghymru, a gwelwyd cynnydd yn nifer y defnyddwyr.
- Rydym ar y llwybr cywir yn ein gwaith i ddatblygu swyddi gwyrdd newydd yn lleol ac yn rhanbarthol trwy brosiectau Barged Ddinesig dan arweiniad CNPT, megis Cartrefi sy'n Bwerdai a Chefnogi Arloesedd a Thwf Carbon Isel. Rydym hefyd yn edrych ar gyfleoedd o'r "economi werdd" sy'n dod i'r amlwg a phrosiectau allweddol fel Porthladd Rhydd a Môr Celtaidd (FLOW). Yn rhanbarthol, sicrhawyd £56,250, ynghyd ag arian cyfatebol o £75,000, i gyflawni prosiect sgiliau rhanbarthol gyda darpariaeth sgiliau gwyrdd ardystiadwy gyda'r Cynllun Tystysgrif Microgynhyrchu (MCS).
- Rydym ar y llwybr cywir gyda'n gwaith i dargedu busnesau sy'n awyddus i dyfu neu ehangu yn y sectorau ynni adnewyddadwy a datgarboneiddio, ac rydym yn eu hannog i ganolbwyntio'u cynlluniau twf yn y fwrdeistref sirol. Roedd y gwaith hwn yn cynnwys:
 - Briff ar gyfer Cyfnod 2 o Hwb Twf Glân CNPT (rhan o brosiect Angor Busnes SPF), y bwriadwyd ei gwblhau erbyn diwedd Mehefin 23.
 - Mae Rheolwr Prosiect Cartrefi sy'n Bwerdai, a arweinir gan CNPT a'i ariannu gan y Fargen Ddinesig, wedi comisiynu ymarferiad mapio cadwyn gyflenwi i nodi'r bylchau yng nghadwyn gyflenwi technoleg adnewyddadwy ar gyfer tai.

Amcan Llesiant 4 - Swyddi a Sgiliau

- Bydd Rheolwr y Prosiect Cartrefi sy'n Bwerdai yn lansio'r Gronfa Cadwyn Gyflenwi Ranbarthol i gefnogi busnesau i arallgyfeirio er mwyn ffurfio rhan o'r gadwyn gyflenwi technoleg adnewyddadwy ym maes tai.
- Cyflawnwyd nifer o brosiectau ar draws canol ein prif drefi i gynorthwyo adferiad. Peth o'r gwaith hwn yw dechrau aildddefnyddio safleoedd gwag ar gyfer llety masnachol a phreifat (aildechreuwyd defnyddio 97 o eiddo preifat problematig hirdymor yn ystod 2022-23) a phrosiectau adfywio mwy mewn trefi megis Sinema'r Plaza a'r ganolfan hamdden newydd, y llyfrgell a'r datblygiad manwerthu yng Nghastell-nedd. Fel rhan o'r Gronfa Ffyniant a Rennir, rydym wedi lansio menter Grant Ffyniant Cymoedd a Phentrefi, a fydd yn caniatáu i ni ariannu prosiectau a gafodd eu cwmpasu'n flaenorol gan Raglen Trawsffurfio Trefi Llywodraeth Cymru, sy'n golygu bod modd i ni dargedu a blaenoriaethu cymunedau mwy pellennig ein cymoedd.
- Our Procurement team commissioned consultants to help develop a tailored NPT Procurement Strategy which will help enhance and develop local spend and further supporting employment of local people and development of local businesses.

Mesur Cyswllt â'r Cynllun Corfforaethol

Yn ystod 2022-23, dyfarnwyd 22 o dendrau i fentrau BaCh a gweithredwyr lleol. Cyflwynwyd 131 yn ystod 2021-22, ond nid yw'r ffigurau hynny'n gymaradwy gan eu bod yn cynnwys niferoedd o'r ffigurau cludiant teithwyr/o'r cartref i'r ysgol, a chyflwynwyd 14 yn ystod 2020-21. Serch hynny, mae'r ffigurau wedi codi o gymharu â blynyddoedd blaenorol, ac mae gwaith yn parhau i hybu trefniadau yn y maes hwn.

- Cryfhawyd yr ymgysylltu â busnesau lleol ac fel rhan o gyflawni prosiect Angor Busnes y Gronfa Ffyniant a Rennir, mae cyfres o ddigwyddiadau cymunedol ar y gweill ar gyfer lleoliadau yn y cymoedd a chanol y trefi, i hybu gwasanaethau cymorth busnes a darparu cyngor ymarferol i fusnesau hen a newydd ar draws CNPT. Parhaodd y gwaith ymgysylltu â'r canlynol: Associated British Ports; y cwmni oddi ar y lan RWE (Rheinisches Westfälische Elektrizitätswerk); Wildfoxa'r Ganolfan Fyd-eang Rhagoriaeth Rheilffyrdd (GCRE) i drafod sut gallwn ni gefnogi ffynonellau lleol; datblygu'r gadwyn gyflenwi ac annog cyflogaeth a hyfforddiant lleol, h.y. cyflwynir cyfres o ddigwyddiadau Cwrdd â'r Prynwr yn 2023.
- Daliwyd ati i gefnogi busnesau lleol a'u cynorthwyo i adfer. Yn ystod 2022-23, cyhoeddodd Llywodraeth y Deyrnas Unedig gymorth y Gronfa Ffyniant a Rennir i awdurdodau lleol. Dechreuwyd gweithio i ddatblygu prosiect newydd i gefnogi busnesau. Ochr yn ochr â'r gwaith datblygu yma, daliodd y tîm gwasanaethau busnes ati i gyflwyno ei ddarpariaeth cyllid mewnol, oedd yn cefnogi 65 o brosiectau buddsoddi mewn busnes, oedd â photensial i greu/diogelu mwy na 300 o swyddi a chynhyrchu dros £1.1m o fuddsoddiad sector preifat i gynnal yr economi lleol.
- Cofnododd y tîm Datblygu Economaidd 515 o ymholiadau busnes a arweiniodd at roi cyngor, gwybodaeth neu gymorth ariannol i gwmnïau oedd eisoes yn bodoli (roedd hyn yn cynnwys cefnogi mentrau cymdeithasol a micro-fusnesau), cynorthwywyd gydag ymholiadau 233 o fusnesau newydd, a chafodd 309 o swyddi eu creu a/neu eu diogelu o ganlyniad i gefnogaeth ariannol yr awdurdod lleol.

Myfyrio ar 2022-2023

Amcan Llesiant 4 - Swyddi a Sgiliau

- Cwblhawyd ein gwaith cynllunio i dargedu cymorth busnes i'r ardaloedd lle ceir y lefel uchaf o segurdd economaidd. Mae cyfres o ddigwyddiadau bellach wedi'u cynllunio ar gyfer ein cymunedau gwledig a chanol ein tref. Bydd digwyddiadau brand 'Dewch i Sgwrsio am Fusnes' yn rhoi cyngor ymarferol i fusnesau hen a newydd ar draws y fwrdeistref sirol.
- Gan adeiladu ar lwyddiant prosiect blaenorol y Gronfa Adnewyddu Cymunedol a sefydlodd Fforwm Busnes Gweithgynhyrchu/Peirianeg, mae gwaith pellach wedi'i gynllunio nawr fel rhan o gyflawni prosiect Angor Busnes SPF. Mae hyn yn cynnwys parhau â'r Fforwm Busnes yn fodd i fusnesau gydweithio a rhannu gwybodaeth, i sefydlu is-grwpiau i drafod materion allweddol ynghylch TGCh; Datgarboneiddio; Sgiliau a Hyfforddiant ac Ariannu. Bydd hyn yn darparu gwybodaeth fusnes hanfodol i helpu i lywio datblygiad strategaethau a pholisïau datblygu economaidd i'r dyfodol a ffurfio cynigion ariannu pellach.
- Daliwyd ati i ddatblygu cynlluniau ar gyfer darparu Hwb Trafnidiaeth Integredig yng Ngorsaf Reilffordd Castell-nedd yn ystod 2022-23, ac rydym wedi sicrhau £1.25 miliwn gan Lywodraeth Cymru ar gyfer 2023 – 2025, i symud y gwaith hwn ymlaen ymhellach.
- Daliwyd ati i gefnogi cynlluniau ceir trafndiaeth gymunedol, er mwyn ehangu ceir cymunedol sy'n gerbydau trydan (EV) gyda chynlluniau yn y Cymer, Glyn-nedd a Dyffryn Aman. Mae'r cynllun trafndiaeth gymunedol yn dal i dyfu, ac mae'r gwasanaeth trafndiaeth gymunedol yn dod â budd cymdeithasol ac economaidd aruthrol i'n cymunedau. Dyma ran o'r gwaith:
 - ↳ Mae pwynt gwefru Cerbydau Trydan bellach wedi'i osod ac yn gweithio ym mhull nofio'r Cymer, ac mae cerbyd trydan heb allyriadau bellach ar waith;
 - ↳ Prynwyd pwynt gwefru ar gyfer lleoliad yng Nghanolfan Hyfforddi Glyn-nedd, a'i osod yn ei le ym mis Mehefin;
 - ↳ Mae car trydan wedi cael ei ddsbarthu i gynlluniau Dyffryn Aman, a bydd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer y Clwb Ceir Cymunedol, h.y. bydd gyrwyr gwirfoddol yn gallu defnyddio car i gasglu teithwyr bregus, neu os na fydd gan rywun gar, gallant ddefnyddio'r car o'r clwb ceir.

Rydym wedi darparu 16,000 troedfedd sgwâr o ofod diwydiannol ysgafn o safon uchel yn ein canolfan dechnoleg, y mae 26.5% ohoni wedi cael ei llenwi.

Mesur Cyswllt
â'r Cynllun
Corfforaethol

2022-2023 Reflection

Well-being Objective 4 - Jobs & Skills

Mesur Cyswllt
â'r Cynllun
Corfforaethol

Nid oes data ar gael ar hyn o bryd ar gyfer canran y bobl 16-24 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET), ond bu gwelliant yng nghanran yr ymadawyr blwyddyn 11 oedd yn NEET o 2.4% i 2.2% (data 2022), ein ffigur isaf erioed. Cododd canran y bobl ifanc 16-18 oed oedd yn NEET fymryn o 3.6% i 4.3%, a bu gwelliant sylweddol yng nghanran y bobl ifanc (16-24 oed) oedd mewn cyflogaeth, o 50.6% yn 2021 i 65.8% yn 2022.

% yr oedolion oedran gwaith oedd â chymhwyster lefel 3 neu uwch yn 2022 oedd 62.9%, sy'n is na ffigur Cymru gyfan o 66.8%. Mae ein ffigur yn CNPT yn uwch na ffigur y flwyddyn flaenorol, sef 56.5%, ond nid oes modd cymharu'r data â blynyddoedd blaenorol oherwydd y newidiadau i'r cwestiynau cymhwyso yn Arolwg y Gweithlu/Arolwg Blynyddol y Boblogaeth.

Mesur Cyswllt
â'r Cynllun
Corfforaethol

Mesur Cyswllt
â'r Cynllun
Corfforaethol

% oedd canran yr oedolion oedran gwaith heb gymwysterau yn 2022 oedd 8.6%, syddo fymryn yn uwch na ffigur Cymru Gyfan o 8.3%. Am yr un rheswm ag uchod, nid oes modd cymharu data'r flwyddyn flaenorol, ond ffigur CNPT yn 2021 oedd 10.8%.

Nid oes data ar gael eto ar gyfer nifer y rhaglenni dysgu seiliedig ar waith yn CNPT. Fodd bynnag, mae data blwyddyn academaidd 2021-22 yn adrodd bod 2,685 o raglenni.

Mesur Cyswllt
â'r Cynllun
Corfforaethol

Mesur Cyswllt
â'r Cynllun
Corfforaethol

Ar draws y fwrdeistref sirol, mae canran y bobl sydd yn economaidd segur wedi codi o 25.1% (21,600 o bobl) yn 2020/21 i 26.63% (22,900 o bobl) yn 2022/23, ac mae'r pandemig a'r hinsawdd economaidd wedi effeithio ar hynny. Mae'r cyngor wedi gweithio'n galed yn ystod 2022-23 trwy ei raglenni cyflogadwyedd i gael effaith gadarnhaol ar y ffigurau hyn. Gwelwyd cynnydd yn lefelau Cymru Gyfan hefyd, o 23.5% i 24.5%.

Ar draws y fwrdeistref sirol, mae canran a nifer yr aelwydydd di-waith wedi codi o 19.8% (8,800) yn 2020/21 i 22.7% (10,000) yn 2022, ac mae'r pandemig a'r hinsawdd economaidd wedi effeithio ar hynny. Mae lefelau Cymru Gyfan wedi gostwng ychydig, o 17% i 16.6%.

Mesur Cyswllt
â'r Cynllun
Corfforaethol

Mesur Cyswllt
â'r Cynllun
Corfforaethol

Mae'r data Gwerth Ychwanegol Gros (GVA) a gyhoeddwyd gan Stats Wales yn cyfeirio at 2021 ac yn dangos bod y GVA y pen mewn £ yn CNPT wedi codi o 16,082 yn 2020 i 17,713 (data dros dro) yn 2021.

Nid oes data ar gael eto ar gyfer y sir gyfan yn 2022 o ran busnesau newydd yn cychwyn, busnesau'n rhoi'r gorau i fasnachu, a chyfraddau goroesiad busnesau. Ar hyn o bryd nid oes gennym ddata ynghylch canran y busnesau sy'n fusnesau cymdeithasol.

Mesur Cyswllt
â'r Cynllun
Corfforaethol

Amcan Llesiant 4 - Swyddi a Sgiliau

- Fel rhan o'r Fargen Ddinesig, fe wnaethom ni lansio Cronfa Datblygu Eiddo'r Glannau, a fydd yn darparu'r cyllid angenrheidiol i bontio'r bwlch rhwng gwerth a chost i roi sylw i'r prinder lle newydd o safon i fusnesau yn y fwrdeistref, yn arbennig ein mentrau BaCh a busnesau sy'n cychwyn. Ar ben hynny, rydym wedi lansio ein Prosiect Angori 'Lle' yn rhan o'r Gronfa Ffyniant a Rennir (SPF), lle mae'r cyngor wedi mynd ati i godi unedau cychwynol newydd ein hunain ar gyfer ein cymunedau yn y cymoedd. Ein bwriad yw codi unedau yng Nglyncorrwg, Cwmgors a Nant y Cafn erbyn 2025. Rydym hefyd yng nghamau cychwynol cynnig i gyflwyno sawl gweithdy newydd ar ein safle yng Nghanolfan Fusnes Sandfields.

Yn ogystal â'r uchod, ac yn gysylltiedig â'r mesur corfforaethol sy'n gysylltiedig â chyfanswm costau gweithredu asedau'r cyngor, nodwyd gwerth £576,000 o arbedion llety staff y cyngor, a gymerir allan o'r gyllideb dros gyfnod o 3 blynedd, 2023-24 i 2025-26.

Mesur Cyswllt
â'r Cynllun
Corfforaethol




Cyllid a Gwariant

Cyllid net y cyngor ar gyfer 2022-23 oedd £338.020m. Roedd yr union wariant net, neu sefyllfa alldro'r cyngor, yn dangos tanwariant net o £1.607m, a ddefnyddiwyd wedyn i greu cronfa datblygu capasiti adfywio strategol (£1.5m), gyda'r gweddill yn cael ei neilltuo ar gyfer cronfa wrth gefn (£107k).

Ar hyd 2022-23 llwyddwyd i hawlio £7m yn ôl o gronfa caledi COVID ar gyfer amrywiaeth o gynlluniau megis prydau ysgol am ddim, cynllun hunanynysu, cynllun ychwanegu at y Tâl Salwch Statudol (SSP) a thaliadau tanwydd yn ystod y gaeaf.

Cyfanswm Cyllideb Net CBSCNPT 2022-23



Ar 2 Mawrth 2023, cymeradwyodd y cyngor gyllideb 2023-24, sef £360.977m, wedi ymgynghori â rhanddeiliaid. Er mwyn pennu cyllideb gytbwys nodwyd nifer o arbedion (£14.352m) ochr yn ochr â defnydd untro o gronfeydd gwerth £3.5m a chynnydd o 4.5% yn nhreth y cyngor

Cyflwynodd ein Rhaglen Gyfalaf hefyd c£44m o fuddsoddiad cyfalaf i wella cyfleusterau ar draws y fwrdeistref sirol, gan gynnwys:

- ↳ Cwblhau rhaglen Ysgolion 21ain Ganrif Band B y cyngor;
- ↳ Cynnydd i'r rhaglen adfywio, gan gynnwys cwblhau Glannau'r Harbwr, ailddatblygu Canol Tref Castell-nedd, y Plaza, a'r Ganolfan Dechnoleg.
- ↳ Buddsoddiad pellach o £3.977m mewn Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl i gynorthwyo pobl i fyw gartref;
- ↳ Buddsoddiad o fwy na £3m mewn gwaith Cynnal Cyfalaf Ysgolion a gwelliannau i'r Priffyrdd a gwaith Cynnal Peirianyddol.
- ↳ Y Fargen Ddinesig – cynnydd Cartrefi sy'n Bwerdai a'r prosiectau Cefnogi Arloesedd a Thwf Carbon Isel.
- ↳ Cynnydd y gwaith ailfodelu yng Nghyfleuster Gwastraff y cyngor yn Nhwyni Crymlyn, i'w gwneud yn Orsaf Drosoglwyddo, gyda mwy o allu i ailgylchu a chyfleusterau i ddapraru ar gyfer gweithrediadau ailgylchu ehangach y Cyngor

Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

Rhan flaenllaw o'n gwaith yn ystod y blynyddoedd diwethaf fu helpu i ymateb i'r heriau mae trigolion yn eu hwynebu – nid lleiaf ymdrin â'r anghydraddoldeb a wynebir gan lawer – yn fwyaf amlwg o ganlyniad i bandemig Covid-19, yr argyfwng costau byw, addysg, hygyrchedd a chymdeithas ei hun.

Ein nod yw cymdeithas lle mae lle priodol i bawb, a phawb yn gyfartal, gyda rhwystrau i fyw bywyd llawn a chyfoethog yn rhan o'r gorffennol, ac mae llu o gyfleoedd i bawb gyfranogi'n llawn yn agweddau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol eu cymunedau.

Un ffactor yn unig yn ein gwaith i helpu i gyflawni hyn oedd ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-2024. Datblygwyd y Cynllun yn ystod y pandemig, ar adeg y condemnio rhyngwladol ar ladd George Floyd a chynyddu

ymwybyddiaeth o BLM (mae Bywydau Du o Bwys).

Roedd yn gofyn ein bod yn ailwerthuso ein hamcanion cydraddoldeb ac yn nodi camau gweithredu mwy brys i roi sylw i rai o'r mathau o anghydraddoldeb oedd yn cael eu profi ar y pryd.

Ers yr iteriad diwethaf hwnnw o'r Cynllun, mae ein byd wedi newid unwaith yn rhagor, ac mae'r newidiadau hynny wedi creu heriau ac anghydraddoldeb gwahanol a/neu fwy i'n cymunedau ac i ninnau.

Er mwyn helpu i roi sylw i'r sefyllfa, rydym wedi dechrau adolygu ein hamcanion cydraddoldeb, a bydd canlyniad hynny yn helpu i sicrhau bod ein gwaith yn canolbwyntio ar leihau anghydraddoldeb, a'i ddileu, lle bo modd, gan sicrhau bod Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-2028 yn cyfateb yn well i'n cynlluniau statudol eraill ac yn arbennig Gynllun Corfforaethol 2024-2027.

Yng ngoleuni argymhellion tri archwiliad Asesu Effaith Integredig, a gynhaliwyd yn ystod 2021-2022, datblygwyd cynllun gweithredu i wella dull, ansawdd ac effeithiolrwydd ein proses asesu.

Mae'r cynllun gweithredu, sy'n cwmpasu agweddau penodol a rhai mwy cyffredinol ar y broses asesu, yng nghyfnod cynnar ei roi ar waith.



Yr Iaith Gymraeg

Mae ein hymrwymiad i egwyddor safonau'r Gymraeg yn parhau, ac rydym yn ymdrechu i'w bodloni, fel y'u cymhwyswyd i ni, mewn amgylchedd sy'n dal yn anodd yn ariannol ac yn cyfyngu ar adnoddau.

Mae ein Hadroddiad Blynyddol ar Safonau'r Gymraeg yn amlygu ein gwaith yn rhoi'r safonau ar waith, yn ogystal â nodi meysydd lle mae angen rhagor o waith. Nododd y perfformiad a gafodd ei fonitro gan Gomisiynydd y Gymraeg, a'i gynnwys yn yr adroddiad diweddaraf, 2022-2023, welliannau cydymffurfiaeth ar draws ystod o wasanaethau.

Rhoddwyd hwb pellach i'n hyder o ran bodloni'r safonau a gymhwyswyd i'r cyngor yn sgîl y ffaith na chafwyd cwynion trwy Gomisiynydd y Gymraeg yn 2022- 2023.

Yn ystod yr wythnosau diwethaf, mae Tribiwnlys y Gymraeg wedi cadarnhau penderfyniad y Comisiynydd ynghylch cwyn a ddaeth i law yn wreiddiol yn 2021.

Roedd atgyfeirio i Dribiwnlys y Gymraeg yn golygu mwy na herio penderfyniad y Comisiynydd; y diben oedd rhoi sylw i bryderon ynghylch effaith bosibl dehongli Safonau'r Gymraeg ar unrhyw ymgynghori gan y cyngor ar unrhyw destun, ac felly ceisio arweiniad cyfreithiol ac ymarferol pellach.

Rydym ni'n cydnabod bod y Gymraeg yn fwy na iaith – mae'n rhan o'n hanfod – p'un a gawsom ni'n geni yma neu beidio. Mae'n rhan o wead ein bywydau – hyd yn oed os nad yw'n amlwg ar unwaith; mae ein henwau lleoedd, ein henwau cyntaf, ein hymadroddion llafar, i gyd wedi'u gwreiddio yn y Gymraeg.

Mae ail iteriad ein Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg 2023-2028 yn mynd y tu hwnt i ddefnyddio'r Gymraeg: y nod yw treiddio i bob rhan o'n cymdeithas, o helpu i sicrhau bod cyrsiau iaith ar gael i bawb sy'n dymuno dysgu, a darparu amgylchedd lle mae modd defnyddio'r iaith, i ddathlu a chynyddu ymwybyddiaeth o'i lle yn ein treftadaeth a'n diwylliant, ein bywydau beunyddiol a'r hyn sydd gennym i'w gynnig i ymwelwyr.



Lleisio barn ar y pethau sy'n bwysig i chi

Rydym ni'n gwerthfawrogi eich adborth ar yr Adroddiad Blynyddol hwn, ac ar lefel llywodraeth leol mae hynny'n golygu ymrwymiad i wrando ar bob llais. Mae'n allweddol bod y lleisiau hynny'n cael eu clywed ac yn cydweithio â'n cymunedau i archwilio a datrys materion sy'n destun pryder, hyrwyddo a chydabod cyflawniadau, ac wynebu heriau newydd ar y cyd.

Mae ein cyngor yn gwbl ymroddedig i feithrin diwylliant o bartneriaeth gyda phobl a chymunedau lleol, gan eu hannog a'u cefnogi i fod yn rhan o'n penderfyniadau, a rhoi gwybodaeth reolaidd iddyn nhw am sut mae eu cyfranogiad wedi dylanwadu ar benderfyniadau. Mae'r ymrwymiad hwn i'w weld yn ein Strategaeth Cyfranogiad Cyhoeddus

Cysylltwch â ni trwy e-bost: policy@npt.gov.uk neu drwy'r post:

Y Prif Weithredwr,
Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot,
Y Ganolfan Ddinesig,
Port Talbot,
SA13 1PJ

*Hoffem glywed
oddi wrthy'ch*

Efallai byddwch hefyd am ymuno â'n Panel Dinasyddion, sy'n galluogi trigolion i fod yn rhan o ymchwil sy'n ymwneud â'r cyngor. Mae hynny'n golygu y byddwch chi'n gallu dweud wrthym ni beth yw eich barn am bolisiau, blaenoriaethau a/neu wasanaethau'r cyngor.

Mae pob adborth yn ein helpu i ddeall safbwynt ein trigolion, ac rydym ni'n ei ddefnyddio i helpu gyda phenderfyniadau. Does dim angen unrhyw wybodaeth am wasanaethau'r cyngor i ddod yn aelod o'r panel. Rydym ni'n chwilio am amrywiaeth barn gan ystod o wahanol bobl. Efallai cewch chi gais i fod yn rhan o holiaduron ar-lein, trafodaethau anffurfiol, gweithdai, cyfweiliadau ffôn a mathau eraill o ymgynghori.

Os hoffech ymuno, llanwch yr holiadur recriwtio.

Mae gennym hefyd nifer o ddigwyddiadau ymgynghori/ymgysylltu ar amrywiol wasanaethau y byddwn ni'n eu hyrwyddo yn y wasg ac ar y wefan. Cewch fynediad i'r rhain trwy'r ddolen ganlynol: <http://www.npt.gov.uk/haveyoursay>.

